# Adroddiad Blynyddol
2023/24

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales









# Adran 1

## Adroddiad ar Berfformiad

# Cynnwys


5 **Rhagair**

11 **Cyflwyniad**

14 **Ein Cynllun Strategol**

18 **3. Blaenoriaeth Strategol 1:** Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd

22 **4. Blaenoriaeth Strategol 2:** Hybu llesiant meddyliol a chymdeithasol

27 **5. Blaenoriaeth Strategol 3:** Hybu ymddygiad iach

33 **6. Blaenoriaeth Strategol 4:** Cefnogi'r gwaith o ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar

44 **7. Blaenoriaeth Strategol 5:** Darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol i ddiogelu'r cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl i'r boblogaeth

55 **8. Blaenoriaeth Strategol 6:** Mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd cyhoeddus

60 **9. Cyflawni ein Cynllun yn llwyddiannus drwy ein swyddogaethau galluogi**

76 **10. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

81 **11. Sylwadau i gloi**

# Rhagair
# Jan Williams OBE, Cadeirydd y Bwrdd

Roedd 2023/24 yn flwyddyn ragorol arall i Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cyflawnwyd 90% yn erbyn Cynllun Tymor Canolig Integredig uchelgeisiol, cafwyd alldro ariannol cytbwys, arweinyddiaeth system egnïol, mabwysiadwyd dull newydd o fynd i'r afael â phryder iechyd y cyhoedd cynyddol ynghylch cyfraddau fepio ymhlith plant a phobl ifanc, a chafwyd enw da rhyngwladol cynyddol am feddwl ac ymarfer blaengar.



Mae pandemig COVID 19 yn parhau i fod â goblygiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol i iechyd a llesiant y boblogaeth a gweithiodd staff ymroddedig a dawnus Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ddiflino drwy gydol y flwyddyn i liniaru'r goblygiadau hynny. Roedd hyn yn cynnwys ymateb i benderfynyddion ehangach iechyd, addysg, cyflogaeth a thai, ymateb yn benodol i'r argyfwng costau byw a llywio Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru.

Roedd y rhaglen waith llesiant meddwl yn canolbwyntio ar roi'r Fframwaith Ymarfer Trawma Cenedlaethol ar waith, gan ymgorffori'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol a phwysleisio pwysigrwydd y 1000 Diwrnod Cyntaf o Fywyd.

Roedd yr agenda iechyd a llesiant eang ei chwmpas yn cynnwys cefnogi rhieni drwy gyhoeddi adnoddau i helpu o'r Newydd-anedig hyd at 2 oed, gwaith gwella ar ysmygu yn ystod beichiogrwydd, Cymru Ddi-fwg a Phwysau Iach Cymru Iach. Yn ystod y flwyddyn, roedd y rhaglen genedlaethol Mynd i'r Afael â Diabetes Gyda'n Gilydd yn cynrychioli newid sylweddol yn y ffocws ar atal a model cynhwysol, system gyfan ar gyfer y dyfodol. Cyrhaeddodd gwaith y Tîm Gofal Sylfaenol Gwyrddach restr fer cynllun Gwobrau Cynaliadwyedd y GIG 2024 - da iawn iddyn nhw!

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn darparu gwasanaethau rheng flaen; cafodd timau Diogelu Iechyd, Gwyliadwriaeth a Sgrinio flwyddyn eithriadol o brysur, gyda Gaeaf 2023/24 yn lleddfu'n fawr yr effaith y gallai achosion o glefydau heintus eu cael, gan gynnwys y pas a'r frech goch.

Parhaodd gwasanaethau heintiau ac arbenigwyr brechu â'u gwaith rhagorol trwy gydol y flwyddyn, fel y gwnaeth y Tîm Sgrinio. Gwnaethant gyflawni gwelliannau mawr wrth adfer rhaglenni Bron Brawf Cymru a Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru. Cyflwynodd gwaith cwmpasu ar gyfer rhaglen archwilio iechyd yr ysgyfaint botensial cyffrous i ychwanegu at gyfraniad hanfodol y Tîm i iechyd cyhoeddus y genedl.

Roedd hon hefyd yn flwyddyn o gyflawniad mawr ar draws pob agwedd ar wybodaeth, ymchwil a gwerthuso, gwyddor data, digideiddio, cynhyrchu ystadegau swyddogol a rheoli rhestrau Cofrestrfa hanfodol sy'n seiliedig ar boblogaeth

Cefais y fraint o fynychu agoriad Canolfan Iechyd Genomig Cymru - ym Mharc Gwyddorau Bywyd Caerdydd Edge; Chwaraeodd Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl hanfodol wrth gyflawni hyn ac roedd yr Uned Genomeg Pathogen yn un o'r meddianwyr cyntaf; mae'r Ganolfan, gyda'i chyfleusterau o ansawdd uchel, yn lleoliad perffaith i'r Uned a Rhaglen Genomeg Iechyd y Cyhoedd ddatblygu gwasanaethau genomeg newydd i wella iechyd a llesiant.

Mae'r agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi cael lle amlwg dros y blynyddoedd, ac erioed yn fwy felly nag eleni. Cawsom y fraint o dderbyn y Wobr Aur am gymhwysedd diwylliannol gan Diverse Cymru, cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac, ym mis Rhagfyr 2023, croesawyd Tamsin Ramasut, a ymunodd â'r Bwrdd fel ein Cyfarwyddwr Anweithredol gyda diddordeb arbennig mewn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI).

Roedd Strategaeth Hirdymor 2023-35 yn cynnwys blaenoriaeth strategol newydd ar fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd. Cawsom ddechrau cadarn eleni, gyda chyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar y newid yn yr hinsawdd, cyflwyno Cymuned Ymarfer newydd ar y Newid yn yr Hinsawdd a gostyngiad sylweddol yn ein hôl troed carbon. Bydd Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd 2024-26 yn adeiladu ar hyn.

Yn 2023/24 hefyd, parhaodd y Tîm Iechyd Rhyngwladol i weithio gyda Swyddfa Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd a Llywodraeth Cymru ar y cyd-destun hanfodol ar gyfer tegwch iechyd. Lansiwyd Platfform Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru, y cyntaf arloesol o'i fath, yn ystod y flwyddyn a chafodd Sefydliadau Iechyd y Cyhoedd ledled y byd fudd o ganllawiau ar gymhwyso Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd.

Roedd hon hefyd yn flwyddyn o gyflawniad mawr ar draws pob agwedd ar wybodaeth, ymchwil a gwerthuso, gwyddor data, digideiddio, cynhyrchu ystadegau swyddogol a rheoli rhestrau Cofrestrfa hanfodol sy'n seiliedig ar boblogaeth. Cyflymodd yr ymgysylltiad â phartneriaid iechyd y cyhoedd yn y byd academaidd, yr Adnodd Adrodd ar Ganser, Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym Iechyd y Cyhoedd, y defnydd o wyddor data i archwilio potensial AI a chyflymder cynyddol digideiddio systemau data i gyd yn gwella gallu sefydliadol a system.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn ffodus bod ganddo swyddogaethau corfforaethol sydd wedi'u datblygu'n dda, y mae ei aelodau'n ffurfio asgwrn cefn cymorth corfforaethol rhagorol. Mae'r staff hynny sy'n gweithio ym meysydd Pobl a Datblygu Sefydliadol, Ansawdd, Cyfathrebu Risg, Llywodraethu, Ansawdd, Risg, Diogelu a Chyllid, i gyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at iechyd a llesiant y sefydliad cyfan.

Fel erioed, rhoddaf deyrnged arbennig i Huw George a'r tîm cyllid, yr oedd eu harbenigedd a'u trylwyredd yn sail i sefyllfa ariannol gytbwys eto eleni. Mae hwn yn gyflawniad aruthrol ac yn un y dylai pob deiliad cyllideb fod yn falch ohono.

Mae arnaf ddyled fawr hefyd i Huw am ei holl gefnogaeth, cyngor ac arweiniad dros fy nghyfnod fel cadeirydd. Mae Huw yn weithiwr proffesiynol a chyhoeddus cyflawn ac rwyf wedi bod yn fwy ffodus nag y gallaf ei fynegi i allu galw ar ei arbenigedd pwnc.

Ar ddiwedd y flwyddyn, gwnaethom ffarwelio â thîm Gwelliant Cymru, wrth iddynt adael i ymuno â Gweithrediaeth y GIG. O dan arweiniad ysbrydoledig John Bolton, adeiladodd y tîm enw da am arbenigedd ar draws yr agenda ansawdd a diogelwch, a bydd hyn o fudd parhaus mawr i GIG Cymru. Dymunwn yn dda iddynt oll, ac i John, a symudodd ymlaen i gyfleoedd newydd.

Croesawyd aelodau newydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn – Tamsin Ramasut, Claire Birchall a Jim McManus, gan ychwanegu at gryfder Bwrdd a oedd eisoes yn perfformio'n dda, yr oedd ei aelodau'n ddiwyd wrth gyflawni eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran pennu cyfeiriad strategol, adeiladu partneriaethau strategol, goruchwylio strategol, risgiau a chyflawni yn erbyn cynlluniau yn ystod y flwyddyn, gan gynnal llywodraethu da a gosod y naws a'r diwylliant cywir. Mae wedi bod yn bleser gweithio ochr yn ochr â'm holl gydweithwyr ar y Bwrdd a diolchaf iddynt am eu cefnogaeth ddiwyro a'u cyngor doeth.

Fe wnaethom hefyd ffarwelio â Kate Eden, a gwblhaodd ei hail dymor. Bu Kate a minnau'n gweithio ochr yn ochr â'n gilydd am ychydig yn llai na saith mlynedd, ac mae arnaf ddyled fawr iddi am ei chefnogaeth, ei harweiniad a'i chyngor. Cyflawnodd Kate rôl yr is-gadeirydd gyda chlod. Roedd hi'n llysgennad medrus ar gyfer, a hyrwyddwr diflino, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Neilltuwyd cryn dipyn o amser i'r Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19 eleni, wrth baratoi ar gyfer y modiwlau perthnasol ac wrth roi tystiolaeth ynddynt. Roedd y gwaith dan sylw yn aruthrol ac roedd y cyflwyniadau o ansawdd uchel yn dyst i broffesiynoldeb ac ymrwymiad y tîm cyfan. Roedd Tracey Cooper, Quentin Sandifer a Chris Williams wedi ymddwyn yn rhagorol, gan roi tystiolaeth gydag awdurdod a gostyngeiddrwydd, gan adlewyrchu'r rôl arloesol yr oedd staff ar draws y sefydliad wedi'i chwarae trwy gydol y pandemig.

Hwn fydd fy Rhagair olaf wrth i mi roi'r gorau i'm rôl ddiwedd mis Mai 2024.

Gwn y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mynd o nerth i nerth. Edrychaf ymlaen gyda llawer o atgofion hapus ac ymdeimlad o falchder parhaus ym mhopeth y mae'r sefydliad yn sefyll drosto ac ym mhob aelod o staff

Hoffwn dalu teyrnged ddiffuant i'm rhagflaenydd, yr Athro Syr Mansel Aylward, am ei gefnogaeth a'i arweiniad defnyddiol yn ystod fy misoedd cyntaf fel cadeirydd. Roedd Mansel eisoes wedi gosod y seiliau cryfaf ac mae wedi bod yn fraint ac yn anrhydedd i mi gael ei olynu a chadeirio Bwrdd sefydliad eithriadol, gyda staff eithriadol.

Mae'r berthynas rhwng Cadeirydd a Phrif Weithredwr yn sylfaenol ac rwyf wedi bod yn ffodus iawn i weithio ochr yn ochr â Tracey, yr wyf bob amser yn cyfeirio ati fel person penderfynol ac y mae ei hegni a'i huchelgais wedi bod yn glir eto eleni. Mae Tracey hefyd yn Brif Weithredwr, sy'n denu swyddogion gweithredol eraill o safon uchel ac y mae ei gweledigaeth a'i hymrwymiad yn dod â'r gorau allan o bobl. Mae arnaf ddyled fawr i Tracey am ei chefnogaeth ddiwyro ar hyd y blynyddoedd yr ydym wedi gweithio gyda'n gilydd ac rwyf wedi dysgu cymaint ganddi. Ffurfiasom y bartneriaeth gryfaf, a luniwyd trwy werthoedd a rennir ac ymrwymiad dwfn i wasanaeth cyhoeddus; byddaf yn trysori'r profiad.

Gwn y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mynd o nerth i nerth. Edrychaf ymlaen gyda llawer o atgofion hapus ac ymdeimlad o falchder parhaus ym mhopeth y mae'r sefydliad yn sefyll drosto ac ym mhob aelod o staff. Diolch i chi gyd.



Jan Williams

# Rhagair
# **Tracey Cooper, Prif Weithredwr**

Pleser a braint yw hi i mi gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/24.

Fel Sefydliad Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol Cymru, ein gweledigaeth yw 'Gweithio i sicrhau dyfodol iachach i Gymru'.




Yn dilyn ein hymateb digynsail i bandemig y Coronafeirws dros y blynyddoedd diwethaf, ac adfywiad ehangder ein gweithgareddau a swyddogaethau iechyd y cyhoedd, rydym wedi gweithio'n benderfynol tuag at ein nod o wella iechyd a llesiant yng Nghymru drwy fynd i'r afael â heriau iechyd y boblogaeth heddiw ac yn y blynyddoedd i ddod. Rydym wedi gwneud hyn yn erbyn cefndir o argyfwng costau byw, y pwysau ar wasanaethau iechyd a'r bygythiad parhaus i'r hinsawdd. Ac, i wneud hyn, rydym wedi arwain, cyflawni ac ymgysylltu â phartneriaid ar draws ein holl flaenoriaethau strategol wrth gyflawni ein Cynllun Strategol ar gyfer eleni. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r holl bobl sydd wedi cefnogi ac wedi gweithio gyda ni dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae Jan wedi amlinellu'n huawdl iawn yr holl waith anhygoel sydd wedi'i wneud gan ein pobl hynod ymroddedig a thalentog ar draws y sefydliad, ac felly ni fyddaf yn ailadrodd hyn yma, ond hoffwn eich gwahodd i edrych drwy'r Adroddiad Blynyddol hwn a gweld maint y gwaith a wnawn ar draws ein swyddogaethau.

Mae ein pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn a sut yr ydym yn ei wneud ac, unwaith eto, mae ein pobl hynod ymroddedig wedi mynd gam ymhellach i gyflawni blwyddyn ryfeddol arall eto o ddiogelu a chefnogi iechyd a llesiant pobl Cymru.

Yn olaf, hoffwn ddiolch yn bersonol i bob un o'n pobl eithriadol ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru, ein Tîm Gweithredol a'n Cyfarwyddwyr Anweithredol am eu gwaith caled, eu hangerdd a'u hymrwymiad di-ildio drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf.

> "Mae Jan wedi gwasanaethu gydag ymroddiad a dycnwch manwl i wella iechyd ein poblogaeth ac i barhau i ysgogi diwylliant o fewn ein sefydliad lle rydym am i'n holl bobl deimlo eu bod yn gallu siarad yn ddiogel a bod yn ddilys iddynt hwy eu hunains"

Hoffwn hefyd ddiolch yn bersonol i Jan Williams sydd wedi bod yn gadeirydd i ni am y saith mlynedd ddiwethaf. Mae Jan wedi gwasanaethu gydag ymroddiad a dycnwch manwl i wella iechyd ein poblogaeth ac i barhau i ysgogi diwylliant o fewn ein sefydliad lle rydym am i'n holl bobl deimlo eu bod yn gallu siarad yn ddiogel a bod yn ddilys iddynt hwy eu hunain. Mae Jan wedi bod yn eithriadol yn fy nghefnogi i, y Bwrdd a'r sefydliad cyfan yn ystod yr amseroedd mwyaf heriol ac mae hi wedi gwneud hynny gyda gras ac ymrwymiad di-ildio. Ni allwn fod wedi gofyn am gadeirydd mwy rhagorol i weithio gyda hi yn ystod yr amseroedd hynny dros y saith mlynedd ddiwethaf. Rwyf i, a phawb yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn dymuno'n dda i Jan yn ei hymdrechion yn y dyfodol ac yn diolch yn fawr iawn iddi am ei chyfraniad anhygoel i'r sefydliad ac i Gymru.

Dr Tracey Cooper

# 1. Cyflwyniad

Mae gwaddol pandemig y Coronafeirws (COVID-19) a'r cynnydd parhaus mewn costau byw yn parhau i gael effeithiau difrifol ar bobl Cymru. Yn ogystal â'r effeithiau uniongyrchol ar iechyd, mae hyn hefyd yn cynnwys y goblygiadau ehangach a thymor hwy i'n hiechyd a'n llesiant.



## Rydym yn bwriadu arwain ar wneud gwahaniaeth i'n poblogaeth gan ysgogi gwelliannau mewn iechyd a llesiant a rhoi ffocws ar y newid tuag at atal er mwyn gwella iechyd yn ogystal â chreu system iechyd a gofal mwy cynaliadwy

Mae'n bosibl mai'r newid yn yr hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf arwyddocaol a wynebwn yn fyd-eang. Bydd ei ganlyniadau'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd sy'n hanfodol i gyflawni a chynnal iechyd da. Mae hyn yn amlygu'r cysylltiadau dwfn rhwng llesiant y boblogaeth, llesiant cymdeithasol, llesiant economaidd a llesiant amgylcheddol. Er ei bod yn ymddangos bod y bygythiad yn sgil COVID-19 wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i fod yn effro i fygythiadau i bobl Cymru yn sgil clefydau trosglwyddadwy a pheryglon nad ydynt yn glefydau heintus.

Rydym wedi parhau i ddysgu o'n hymateb i'r pandemig COVID-19 i greu cynlluniau cadarn ar gyfer ymateb i frigiadau o achosion yn y dyfodol. Rydym hefyd yn gwybod yr effaith y mae'r heriau hyn, yn enwedig y pandemig, wedi'i chael ar y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Mae'r pwysau ar y GIG a gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn sylweddol, ond mae hyn hefyd yn wir am bob gwasanaeth cyhoeddus. Gwyddom hefyd y bydd y cynnydd a ragwelir mewn ffactorau risg sy'n ymwneud â chyflyrau iechyd, ynghyd â phoblogaeth sy'n heneiddio, yn cynyddu nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor.

Mae gan y rhan fwyaf o'r clefydau sy'n cynyddu'n sylweddol sbardunau allweddol cyffredin y gellir eu hatal, gan gynnwys: ysmygu, deiet nad yw'n iach, anweithgarwch corfforol ac yfed yn drwm. Mae lefelau isel o lesiant meddyliol yn effeithio'n uniongyrchol ar allu unigolion i ofalu amdanynt eu hunain a gall hynny arwain at fabwysiadu ymddygiad sy'n niweidio iechyd fel strategaeth ymdopi. Nawr yn fwy nag erioed, mae angen ymdrechion ar y cyd gan amrywiaeth o bartneriaid i fynd i'r afael â'r materion hyn dros y blynyddoedd i ddod.

Drwy newid strategol i waith atal yn y system gyfan, mae gennym gyfle i fynd i'r afael â'r heriau hyn a harneisio'r cyfleoedd sydd ar gael i ni yma yng Nghymru. Bwriedir i hyn sicrhau manteision yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor gan gynnwys: lleihau baich ariannol clefydau y gellir eu hatal ar iechyd a gofal cymdeithasol a chyflogaeth, atal y cynnydd mewn clefydau y gellir eu hatal a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd er mwyn sicrhau gwelliannau mesuradwy i iechyd y boblogaeth.




Rydym wedi gweld y pŵer a'r effaith y gallwn ei chael drwy gyfuno ein hymdrechion a'n harbenigedd, gan gynnwys y gwelliannau y gellir eu cyflawni ar raddfa fawr drwy gofleidio arloesedd, datblygiadau technolegol a'n hymrwymiad i gydweithio. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn parhau i ddarparu'r sbardun deddfwriaethol i'n galluogi i fabwysiadu dull ataliol hirdymor sy'n canolbwyntio ar gynnwys y cyhoedd a chydweithio â'n partneriaid i ddarparu atebion integredig wrth i ni fynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol. Rydym hefyd yn cydnabod ein bod yn parhau i weithredu o fewn amgylchedd anwadal a chyfnewidiol, ac felly byddwn yn parhau i ddangos y gallu i ymateb yn ddeinamig i fygythiadau a chyfleoedd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Wrth ddatblygu ein strategaeth, fe wnaethom ganolbwyntio ar ble y gallwn ni, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, ychwanegu'r gwerth mwyaf er budd pobl Cymru. Rydym wedi gwneud hyn drwy gyflawni ein chwe blaenoriaeth strategol, a ategir gan ein hymrwymiad i leihau anghydraddoldebau iechyd. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio'n ddiwyro ar leihau anghydraddoldebau iechyd a sicrhau'r gwerth a'r effaith fwyaf posibl er budd ein poblogaeth.

# 2. Ein Cynllun Strategol

Ar ôl iddi gael ei chymeradwyo gan ein Bwrdd ym mis Mawrth 2023, cyhoeddwyd ein Strategaeth Hirdymor newydd - Gweithio *Gyda'n Gilydd ar gyfer Cymru Iachach, 2023-2035* ym mis Mai 2023, sy'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau Cymru lle mae pobl yn byw bywydau hirach ac iachach, a lle mae gan bawb fynediad teg a chyfartal at y pethau sy'n arwain at iechyd a llesiant da.





Mae'r strategaeth yn nodi ein chwe blaenoriaeth strategol, ac yn amlinellu'n fanwl sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â phob blaenoriaeth, sef:

- Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd
- Hybu llesiant meddyliol a chymdeithasol
- Hybu ymddygiad iach
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar
- Darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol i ddiogelu'r cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl i'r boblogaeth
- Mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd cyhoeddus

Cyflwynwyd ein Cynllun Strategol ar gyfer 2023-2026 (a elwir hefyd yn Gynllun Tymor Canolig Integredig) i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mawrth 2023. Hwn oedd y cynllun gweithredu tair blynedd cyntaf ar gyfer ein Strategaeth Hirdymor newydd. Ar 12 Medi 2023, cymeradwywyd y Cynllun gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

daeth ein Cynllun Strategol 2023/24 i ben ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd dros 97% o'n cerrig milltir wedi'u cwblhau, sy'n cyfateb i gyflawni 291 o gerrig milltir o blith cyfanswm o 297.

## 2.1 Y cynnydd tuag at gyflawni ein cynllun

Ar ddiwedd mis Mawrth 2024 daeth ein Cynllun Strategol 2023/24 i ben ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd dros 97% o'n cerrig milltir wedi'u cwblhau, sy'n cyfateb i gyflawni 291 o gerrig milltir o blith cyfanswm o 297. Mae hyn yn cymharu â 93% o gerrig milltir a gwblhawyd yn 2022/23.


Nodwyd bod tua 2% o'r cerrig milltir heb eu cyflawni'n llawn yn 2023/24. Yn aml, roedd yr oedi gyda chyflawni i'w briodoli i ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth gan gynnwys dibyniaeth ar weithgareddau gan sefydliadau eraill. Yn ystod y 12 mis diwethaf, cymeradwywyd 63 o geisiadau i newid dyddiadau cyflawni cerrig milltir a rhoddwyd estyniad o 4 mis ar gyfartaledd. Bydd unrhyw gerrig milltir y cytunwyd arnynt nad oedd yn bosibl eu cyflawni yn cael eu trosglwyddo i Gynllun 2024/25, ac o blith y rheini bydd 40% ohonynt yn cael eu cyflawni yn Chwarter 1, 33% yn Chwarter 2, 11% yn Chwarter 3, ac 16% yn Chwarter 4. Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd da ar draws nifer o'n rhaglenni newid strategol.

Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran llwyddo i gyflawni ein cerrig milltir yn ystod blwyddyn gyntaf ein Strategaeth Hirdymor, sy'n gyflawniad arwyddocaol i'r sefydliad ac mae'n cynrychioli holl waith gwych ac ymroddiad ein staff yn ystod cyfnod heriol iawn i wasanaethau cyhoeddus.

Adroddir ar gynnydd yn erbyn y cynllun i'n Tîm Gweithredol a'n Bwrdd bob mis drwy ein Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd a'n Hadroddiad Mewnwelediad. Mae hyn yn cynnwys y lefelau ar gyfer pob carreg filltir, adroddiad eithriad ar gyfer y rhai lle y nodwyd problemau, proses reoli ar gyfer rheoli newidiadau mewn perthynas â chyflawni cerrig milltir gyda statws rhagamcanol ar gyfer diwedd y flwyddyn yn adrodd ar gyfraddau cwblhau. Rhoddir sicrwydd parhaus hefyd i Lywodraeth Cymru drwy ein cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig a chyd-gyfarfodydd adolygu atebolrwydd y Tîm Gweithredol.

Nodir rhagor o wybodaeth am ein themâu allweddol ac enghreifftiau o'r hyn a gyflawnwyd gennym yn 2023/24, ochr yn ochr â heriau allweddol a chyfleoedd ar gyfer dysgu, yn yr adran ganlynol.

# Ein Blaenoriaethau
# **2023-2035**




**Ni yw Iechyd Cyhoeddus Cymru.**
**Rydym yn bodoli i helpu pawb yng Nghymru i fyw bywydau hirach, iachach.**

Ein gwerthoedd yw **gweithio gyda'n gilydd**, gydag **ymddiriedaeth a pharch** i **wneud gwahaniaeth**.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# 3. Blaenoriaeth Strategol 1: Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd

Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd

Mae pawb yng Nghymru yn haeddu'r cyfle i gael iechyd da. Fodd bynnag, yn rhy aml mae pobl yn mynd yn sâl neu'n marw'n rhy gynnar oherwydd nad oes ganddynt y conglfeini ar gyfer iechyd da. Mae'r rhain yn cynnwys addysg a sgiliau, cartref cynnes a diogel, gwaith teg, arian ac adnoddau, mynediad at drafnidiaeth fforddiadwy a chynaliadwy, ac amgylchedd ffisegol iach.

Mae'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hyn yn effeithio arnom ni o'n profiadau cynharaf a thrwy gydol ein hoes.

Mae dylanwadu ar y ffactorau hyn yn her fawr, a thros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar gostau byw, gwaith diogel, iach a theg, eiriolaeth a dylanwadu a meithrin gallu ein gweithlu iechyd cyhoeddus.



## 3.1 Ymateb i gostau byw

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio'n ddwys ar ddatblygu ein gwaith i ymateb i gostau byw fel argyfwng iechyd cyhoeddus. Yn ogystal â chefnogi ein staff a defnyddwyr gwasanaethau, rydym wedi adolygu'r effeithiau ar blant, gan wneud argymhellion ar draws deg maes gweithredu polisi sy'n flaenoriaeth. Fe wnaethom gyhoeddi canfyddiadau o'r uwchgynhadledd Cymru gyfan a gyflwynwyd drwy'r bartneriaeth Creu Cymru Iachach. Gan ddefnyddio hyn, a thystiolaeth arall, fe wnaethom gyfrannu at y Grŵp Cyfeirio Arbenigol a gafodd ei gynnull gan Lywodraeth Cymru ar ymateb i'r argyfwng costau byw ac rydym wedi gweithio i ddylanwadu ar Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu, gan ganolbwyntio ar fabanod ac anghydraddoldebau iechyd. Rydym yn parhau i gasglu gwybodaeth gan y boblogaeth ar gostau byw drwy ein harolwg Amser i Siarad, ac rydym yn adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma i ganolbwyntio ar dlodi plant drwy ein partneriaeth strategol Creu Cymru Iachach.

## 3.2 Llywio a hyrwyddo camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd

Fe wnaethom lywio a hyrwyddo camau gweithredu i leihau anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys lansio Llwyfan Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru, porth byw arloesol cyntaf o'i fath sy'n cynnwys tystiolaeth, data, polisïau, offer ymarferol ac adnoddau i lywio a chefnogi'r gwaith o lunio polisïau, blaenoriaethu buddsoddiad, gweithredu traws-sector, a datrysiadau. Fe wnaethom gyhoeddi canllaw ar ddefnyddio'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru, ac mae cyfres o erthyglau'n rhoi sylw i bynciau allweddol, megis tegwch rhwng y rhywiau, argyfwng costau byw, mesur gwerth, a'r dechrau gorau mewn bywyd.

Fe wnaethom nodi arfer da drwy Sganio Gorwelion Rhyngwladol am yr amodau hanfodol ar gyfer tegwch iechyd, prydau am ddim i bawb mewn ysgolion cynradd, ac effaith tlodi ar fabanod, plant a phobl ifanc. Cyflawnwyd y gwaith hwn fel rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a Llywodraeth Cymru gan helpu i gyflymu'r cynnydd tuag at fywydau iach a llewyrchus i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru ac yn fyd-eang. Fe wnaethom helpu i adnewyddu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth tan 2026 gan gadarnhau ymrwymiad ac adnoddau ar y cyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

## 3.3 Dylanwadu ar iechyd a thegwch drwy waith diogel, iach a theg

Rydym wedi datblygu ein gwaith gyda phartneriaid ar gyflogaeth fel penderfynyddion iechyd. Gan ddefnyddio ein canllaw ac adnoddau ar gyfranogi mewn gwaith teg fel llwybr i iechyd, llesiant a thegwch, rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i ddylanwadu ar gamau gweithredu a chynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg. Casglwyd gwybodaeth yn ystod y cyfnod ymgysylltu i ddeall ymhellach flaenoriaethau rhanddeiliaid, heriau a'u hanghenion presennol i gefnogi cyfeiriad ein gwaith yn y dyfodol.

Un o lwyddiannau'r gwaith hwn yw gweld cynnydd yn nifer y cynlluniau llesiant a luniwyd gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cyfeirio'n benodol at gyflogaeth a/neu nodweddion gwaith teg, gyda rhai yn dyfynnu'r canllaw gwaith teg. Mae ein gwaith hefyd wedi'i gynnwys yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar waith teg.

Mae ein tîm Cymru Iach ar Waith yn datblygu model cyflawni digidol i ehangu cyrhaeddiad yn sylweddol i ystod ehangach a mwy o gyflogwyr. Cynhaliwyd ymchwil i lywio'r gwaith o greu gwefan newydd ar gyfer cyflogwyr. Mae cynnwys y wefan wedi'i ailwampio a'i ehangu ar draws llawer o bynciau i gefnogi camau gweithredu gan gyflogwyr ar iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd cyhyrysgerbydol, iechyd a llesiant meddyliol, gwaith teg a niwroamrywiaeth. Mae ymgyrchoedd digidol a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth wedi cynnwys presenoldeb gweithredol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a gwaith hyrwyddo drwy sianeli rhanddeiliaid.

Cynhaliwyd ymchwil gyda chyflogwyr i deilwra datblygiadau, gan ddefnyddio arolwg ar-lein a chyfweliadau manwl i ddarparu mewnwelediad ansoddol. Mae cynnig hyfforddi a meithrin gallu newydd yn cael ei greu, gan weithio ar y cyd â Busnes Cymru i gynnal cynhyrchion a chyrraedd miloedd yn fwy o gyflogwyr. Datblygwyd pecyn cymorth rheoli absenoldeb oherwydd salwch ac e-fodiwl hyfforddi, a lansiwyd gweminarau ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a oedd yn canolbwyntio ar anabledd, ac iechyd cyhyrysgerbydol.

## 3.4 Iechyd ym mhob polisi drwy asesu'r effaith ar iechyd

Rydym yn parhau i gefnogi dull iechyd ym mhob polisi, gan roi cyngor ar ddatblygu ac ymgynghori ar reoliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru), 2017. At hynny, rydym wedi cefnogi nifer o Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus ar draws y byd i ddatblygu HIA fel offeryn ar gyfer cynnwys iechyd ym mhob polisi. Mae hyn yn cynnwys Iwerddon, Portiwgal ac Awstralia ac rydym wedi cynnal a chyhoeddi nifer o HIAs unigryw a dylanwadol gan gynnwys ar newid yn yr hinsawdd yng Nghymru, ac ar effaith cytundeb masnach rydd Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP).

Arweiniodd yr HIA ar fasnach at gyfres o weminarau a digwyddiadau a gyflwynwyd mewn partneriaeth â WHIASU a Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru a mynychwyd digwyddiad Masnach mewn Economi Llesiant gan dri ar hugain o weithwyr academaidd, cymdeithas sifil ac iechyd cyhoeddus gan gynnwys aelodau o adran Busnes a Masnach llywodraeth y DU ac adran polisi Masnach Llywodraeth Cymru. Roedd y gwerthusiad a'r adborth yn hynod gadarnhaol ac arweiniodd y trafodaethau at ymgysylltu pellach â llunwyr polisïau masnach y DU yn uniongyrchol a darparu mewnbwn sy'n canolbwyntio ar iechyd y cyhoedd i ymgynghoriadau'r llywodraeth.

## 3.5 Cynyddu gallu o ran dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd

Rydym wedi gweithio i gryfhau gallu iechyd cyhoeddus i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach. Fe wnaethom ddatblygu Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n prysur ehangu, ar gyfer y gweithlu iechyd cyhoeddus ehangach, gan gynnal cynadleddau ar gynllunio gofodol a'r argyfwng hinsawdd. Fe wnaethom sefydlu cymuned o ddiddordeb ar gyfer penderfynyddion ehangach, gan gefnogi gweithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol yn lleol ac yn genedlaethol.

Yn ogystal â hynny, rydym wedi cynyddu'r ddealltwriaeth ar gyfer penderfynyddion penodol, gan gynnwys addysg ac iechyd.

Cyhoeddwyd tystiolaeth gennym am y berthynas rhwng cyrhaeddiad addysgol ac iechyd, a map o'r ffactorau sy'n effeithio ar gyflawniad addysgol yng Nghymru. Mae'r map yn dangos nifer o ffactorau rhyng-gysylltiedig, llawer ohonynt y tu hwnt i leoliad yr ysgol sy'n effeithio ar ddeilliannau addysgol. Rydym wedi defnyddio'r map gyda phartneriaid i gynyddu effaith ymdrechion i leihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cyfrannu at ddealltwriaeth barhaus o dai ac iechyd drwy adroddiadau ar fforddiadwyedd cartrefi.

**Rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru**

Mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus ledled Cymru a'u timau, mae'r Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd wedi llwyddo i gael cyllid am dair blynedd gan raglen Llunio Lleoedd y Sefydliad Iechyd.

Nod y *Rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru* yw ceisio cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd drwy systemau sy'n seiliedig ar theori a thystiolaeth i leihau anghydraddoldebau iechyd, i ychwanegu at y dystiolaeth ar weithredu dulliau sy'n seiliedig ar systemau ac i rannu'r hyn a ddysgwyd.

Yn dilyn cyfnod dylunio a ariannwyd gan y Sefydliad Iechyd, fe wnaethom gydgynhyrchu'r rhaglen gyda chynrychiolwyr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Thimau Iechyd Cyhoeddus Byrddau Iechyd Lleol. Bydd y rhaglen yn sefydlu tri grŵp dysgu sy'n agored i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, yn cynnwys aelodau a swyddogion technegol. Bydd pob grŵp dysgu yn cymryd un o dair thema y cytunwyd arnynt (yr argyfwng hinsawdd a natur, tlodi ac anghydraddoldebau a llesiant cymdogaethau) ac yn cael eu harwain drwy ddull pum cam hyblyg, gan ddefnyddio technegau i ddisgrifio ac archwilio systemau i lywio a phrofi camau gweithredu, gan gymhwyso ac integreiddio dysgu i'r gwaith o gyflawni cynlluniau BGC yn lleol.

Yn ogystal â rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws Cymru a gwledydd eraill y DU, y bwriad yw datblygu cynllun gwaddol ar ddiwedd oes y rhaglen. Mae'r prosiect hwn yn rhan o raglen Llunio Lleoedd y Sefydliad Iechyd. Sefydliad elusennol annibynnol sy'n gweithio i greu Prydain iachach yw'r Sefydliad Iechyd.

# 4. Blaenoriaeth Strategol 2: Hybu llesiant meddyliol a chymdeithasol

**Hybu llesiant meddyliol a chymdeithasol**

Llesiant meddyliol a chymdeithasol yw sylfeini iechyd a llesiant gydol oes. Mae'r penderfynyddion ehangach yn darparu'r amodau ar gyfer iechyd da, a gellir ystyried llesiant cymdeithasol a meddyliol fel y sylfeini ar gyfer pobl a chymunedau iach.



Mae ein gwaith o dan y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar dri maes eang:

- Creu cyfleoedd a chymhelliant i bawb flaenoriaethu amser ar gyfer y pethau sy'n eu cadw'n iach yn feddyliol
- Pwysigrwydd y 1000 diwrnod cyntaf o fywyd o ran gosod y sylfeini ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac emosiynol gydol oes
- Gweithredu i greu Cymru sy'n ystyriol o drawma i atal y niwed sy'n deillio o adfyd yn ystod plentyndod a thrwy gydol oes gan gynnwys atal trais.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau â'n gwaith i ddatblygu a gweithredu'r Fframwaith Ymarfer Trawma Cenedlaethol drwy ddatblygu cynllun gweithredu a fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc.

Rydym wedi cynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer y strategaeth atal trais ieuenctid ac wedi darparu cymorth ar gyfer gweithredu'r Ddyletswydd Trais Difrifol. Rydym wedi cynyddu ein gallu i fonitro effaith trais drwy weithredu system wyliadwriaeth atal trais ar raddfa lawn i Gymru.

Rydym wedi parhau â'n datblygiad o'r rhaglen waith llesiant meddyliol drwy ymgysylltu'n helaeth â'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ar eu dealltwriaeth o lesiant meddyliol a phrofi ein dull gweithredu er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb. Bydd hyn yn sail i weithredu rhaglen waith Hapus yn barhaus. Rhaglen strategol hirdymor sy'n cael ei hwyluso gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yw Hapus, gyda'r nod o ddiogelu a hyrwyddo llesiant meddyliol ar draws poblogaeth Cymru. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau cenedlaethol a lleol i lansio sgwrs genedlaethol ar lesiant meddyliol. Bydd y sgwrs yn digwydd drwy gyfryngau digidol a lleoliadau yn y byd go iawn ble y byddwn yn rhannu gwybodaeth yn seiliedig ar dystiolaeth am ffyrdd o ddiogelu a hyrwyddo llesiant meddyliol ac annog pobl i rannu'r hyn sy'n bwysig ar gyfer eu llesiant meddyliol. Rydym wedi ffurfioli ein gwaith partneriaeth ar gyfer rhaglen Hapus drwy gytuno ar gytundeb partneriaeth ffurfiol gyda'n sefydliadau partner a fydd yn gweithio gyda ni i gyflawni ein nodau cyffredin.

Gan weithio gyda'r Ganolfan Ymchwil ar gyfer Iechyd, Gweithgarwch a Lles ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, rydym wedi ymgymryd ag ymchwil i ddeall y rhwystrau a'r ffactorau sy'n galluogi unigolion i gymryd camau i hyrwyddo a diogelu eu llesiant meddyliol a bydd y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn i ddod. Bydd yr ymchwil yn ein helpu i ddeall yn well pa grwpiau o'r boblogaeth sy'n llai tebygol o fod yn ymwybodol o'u llesiant meddyliol neu o gymryd camau i'w hybu ac i ddeall yn well y ffactorau sy'n galluogi ac yn atal pobl rhag gweithredu.

Rydym wedi parhau â'n gwaith i gefnogi ymgorfforі Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Meddyliol ac Emosiynol gan adrodd ar yr hyn a ddysgwyd o'r broses weithredu a pharhau â'n gwaith i rannu tystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio mewn ffordd sy'n hygyrch i'n partneriaid addysg. Er mwyn cyflawni'r uchelgais a osodwyd ar y cyd â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod 90% o ysgolion â dysgwyr oedran uwchradd yn gweithio i ymgorffori Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol drwy gynnal hunanwerthusiadau o'u cryfderau a meysydd i'w datblygu, roedd 92% o ysgolion wedi dechrau neu wedi cwblhau hunanwerthusiad erbyn 31 Mawrth 2024. Ar y cyd ag ysgolion, roeddem yn agos at gyflawni'r uchelgais fwy heriol o sicrhau bod gan 80% o ysgolion â dysgwyr oedran uwchradd gynlluniau gweithredu ar waith, gan gyrraedd 74% erbyn 31 Mawrth 2024.

Rydym hefyd wedi parhau i wneud gwaith sy'n edrych ar y dystiolaeth o ran yr hyn sy'n gweithio a rhannu hynny â'r rhai yn y sector Addysg i'w helpu i wneud penderfyniadau. Yn olaf, rydym wedi parhau â'n gwaith ar bwysigrwydd y 1000 Diwrnod Cyntaf ym mywyd plentyn wrth osod y sylfeini ar gyfer iechyd a llesiant gydol oes gan adolygu'r rhaglen waith a chreu cynlluniau ar gyfer y cam datblygu nesaf.

## 4.1 Gwybodaeth Iechyd i Rieni drwy'r Rhaglen Pob Plentyn

Mae'r rhaglen Pob Plentyn wedi cyhoeddi 'Eich Beichiogrwydd a'r Enedigaeth' a 'Newyddanedig hyd at 2 oed'. Mae'r adnoddau newydd hyn yn rhan o raglen waith i gynhyrchu olynydd i Naw Mis a Mwy a dyma'r adnodd gwybodaeth iechyd sylfaenol a ddarperir gan y GIG i'r rhai sy'n rhieni am y tro cyntaf yng Nghymru.

Datblygwyd yr adnoddau newydd yn dilyn adborth gan rieni a ddywedodd eu bod eisiau gwybodaeth a oedd yn adlewyrchu eu taith rianta yn well, a oedd â naws fwy cefnogol ac a oedd yn cael ei ddarparu ar yr adeg pan oedd y wybodaeth yn fwyaf perthnasol iddynt. Mae'r llyfrynnau newydd wedi'u hysgrifennu gydag arweiniad gan weithwyr iechyd proffesiynol a mewnbwn gan rieni sydd eisoes wedi bod ar y daith rianta. Mae profion cyn cyhoeddi'r llyfrynnau ac adborth cynnar ar ôl eu cyhoeddi wedi bod yn hynod gadarnhaol.




*"Dyw'r geiriau ddim yn gymhleth, dydyn nhw ddim yn defnyddio termau ysbyty na fyddai gen i syniad beth maen nhw'n ei feddwl. Fe wnes i ddarllen y cyfan a deall pob gair…Dyw'r llyfr ddim yn wyddonol o gwbl, mae'n rhoi disgrifiad syml o beth ydyw, beth fydd e'n ei wneud, a dyna'r cyfan sydd angen i chi ei wybod oherwydd mae angen i'r nyrsys wybod am y wyddoniaeth ac os ydych chi eisiau gwybod mwy gallwch chi ofyn iddyn nhw ond dwi ddim yn teimlo bod angen i chi wybod pob manylyn am bob dim."*

**(Menyw, 16-24 oed; wedi'i hunan-nodi fel rhywun nad yw'n gallu darllen)**

*"Mae'r cysyniad yn wych. Dyma'r peth agosaf gewch chi i lawlyfr."*

**(Dyn, 25-34)**

*"Rwy'n arbennig o hoff o'r canllawiau cam wrth gam darluniadol, mae hyn yn help mawr i gydweithwyr / rhieni a allai fod â phroblemau llythrennedd. Mae'r lliwiau hefyd yn drawiadol, yn enwedig gyda'r defnydd o liw gwahanol ar gyfer pob adran."*


**(Gwasanaeth Dechrau'n Deg)**

## 4.2 Dull Iechyd y Cyhoedd o Gynorthwyo Rhieni

Lansiodd Rhaglen y 1000 Diwrnod Cyntaf animeiddiad i hybu dealltwriaeth o Ddull Iechyd y Cyhoedd o Gynorthwyo Rhieni. Wedi'u cynllunio ar gyfer gweithwyr proffesiynol, mae'r adnoddau'n disgrifio'r amodau sy'n cynorthwyo rhieni i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant ac yn nodi rôl polisi ac ymarfer wrth greu'r amodau hynny.

Mae'r Dull Iechyd y Cyhoedd o Gynorthwyo Rhieni yn dod â theori, tystiolaeth ymchwil a dealltwriaeth bresennol o brofiad rhieni a gweithwyr proffesiynol yng Nghymru a gynhaliwyd rhwng 2018 a 2022 ynghyd. Mae'r animeiddiad newydd hwn yn ategu'r adroddiad cryno a'r adroddiad technegol llawn a gyhoeddwyd eisoes i roi cyflwyniad byr i bwysigrwydd ffactorau strwythurol a seicogymdeithasol o ran creu'r amodau i deuluoedd ffynnu (gweler Ffigur 1).

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i gyfleu'r negeseuon allweddol o'r adroddiad, yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys y rôl y mae penderfynyddion ehangach iechyd yn ei chwarae wrth alluogi teuluoedd i ffynnu. Mae hyn wedi arwain at fwy o ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth o bwysigrwydd profiadau cynnar babanod o ran eu hiechyd a'u llesiant nawr ac yn y dyfodol ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan wella gweithio traws-sefydliadol.




**Ffigur 1.** Model Iechyd Cyhoeddus ar gyfer Cymorth i Rieni

# 5. Blaenoriaeth Strategol 3: Hybu ymddygiad iach

Hybu ymddygiad iach

Mae hybu ymddygiad iach yn cynnwys camau i leihau afiechyd, anabledd a marwolaethau cynnar sy'n deillio o bethau fel ysmygu, ein deiet, pa mor heini yr ydym a sut rydym yn defnyddio alcohol a sylweddau eraill. Mae'r cyfleoedd i wneud dewisiadau iachach yn cael eu dylanwadu gan ein hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd ac, yn bwysig ddigon, gan weithredoedd y sefydliadau masnachol sy'n cynhyrchu'r cynhyrchion hyn ac mae ein gwaith yn canolbwyntio ar greu amgylchedd lle nad yw pobl yn cael eu hannog i ddewis yr opsiwn lleiaf iach.



Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Gwybodaeth a Chanllawiau ar Fêpio i Ddysgwyr Oedran Uwchradd yng Nghymru

Wedi'u llunio gan y Tîm Rheoli Tybaco a'r Tîm Lleoliadau Addysgol, yr Is-adran Gwella Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Medi 2023

*Fersiwn 1*

| Beth yw dyfeisiau fêpio? | Faint o bobl ifanc sy'n defnyddio dyfeisiau fêpio a pham mae'n nhw'n fêpio? | Pam mae pryder am fêpio ymhlith pobl ifanc? | Beth yw'r gyfraith o ran fêps a fêpio yng Nghymru? | Pam ydym ni'n poeni am ddyfeisiau fêpio a chynhyrchion fêpio anghyfreithlon? | Sut all ysgolion ymateb i fêpio ymhlith pobl ifanc a mynd i'r afael ag ef? | Dysgu cwricwlwm a awgrymir | Ffynonellau o wybodaeth bellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## 5.1 Grŵp Ymateb i Ddigwydd ar Fepio ymhlith Pobl Ifanc

Ym mis Gorffennaf 2023, fe wnaethom gynnull Grŵp Ymateb i Ddigwyddiad mewn ymateb i'r cynnydd mewn fepio ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru. O ystyried y cynnydd mewn pryderon ynghylch y defnydd o fêps gan bobl ifanc, ac absenoldeb unrhyw brofiad blaenorol gyda sylwedd mor newydd, mabwysiadwyd dull a ddefnyddir fel arfer mewn digwyddiadau a brigiadau o achosion diogelu iechyd. Mae'r dull yn dwyn ynghyd arbenigedd o bob rhan o'r system, yn archwilio'r broblem ac yn cynnal ymchwiliad i ddod i gasgliad ynghylch pa gamau y dylid eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater.

Mae fepio yn arbennig o heriol o ystyried bod angen cydbwyso'r manteision posibl i ysmygwyr presennol â'r angen i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed. Roedd y cydbwysedd hwn yn golygu nad oedd trafodaethau bob amser yn hawdd ac ni ddaethpwyd i gytundeb llawn ar yr holl gamau angenrheidiol. Fodd bynnag, roeddem yn gallu gwneud rhai argymhellion arwyddocaol sy'n cael eu hystyried gan yr asiantaethau perthnasol.

Fel rhan o'r gwaith hefyd cynhyrchwyd canllawiau i ysgolion ar fepio i'w cefnogi i fynd i'r afael â'r problemau yr oeddent yn eu hwynebu. Mae'r gwaith wedi cael ei groesawu a chawsom adborth cadarnhaol iawn. Roedd y gwaith yn cyd-fynd â gweithgarwch ar draws amrywiol sectorau yng Nghymru, cafodd gryn sylw yn y cyfryngau, gan gefnogi negeseuon iechyd cyhoeddus cyson mewn perthynas â fepio.

## 5.2 Lleihau ysmygu ymhlith pobl ifanc

Yng Nghymru rydym wedi cyflawni gostyngiadau sylweddol mewn cyfraddau ysmygu ymhlith plant oedran ysgol. Fodd bynnag, mae'r twf mwyaf mewn cyfraddau ysmygu yn digwydd ar ôl i bobl ifanc adael yr ysgol gydag 17% o bobl ifanc 18-24 oed yn dweud eu bod yn ysmygu (Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2023), grŵp oedran sydd ag un o'r cyfrannau uchaf o ysmygwyr yng Nghymru. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, fe wnaeth y Rhaglen Dybaco waith yn ystod 2023/24 i gasglu tystiolaeth a gwybodaeth i lywio rhaglen waith wedi'i hanelu'n benodol at fynd i'r afael â'r niferoedd sy'n dechrau ysmygu yn y grŵp oedran hwn. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddi data, ymchwil mewnwelediad a dadansoddiad o ymddygiad sydd wedi darparu'r sylfaen ar gyfer datblygu ymyriadau i leihau'r nifer yn y grŵp oedran hwn sy'n dechrau ysmygu yn ystod 2024/25.

## 5.3 Cynllun Gweithredu Cymru Gyfan ar Fwydo ar y Fron

Mae'r Tîm Maeth a Gordewdra Plant wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Gyfan ar Fwydo ar y Fron ar waith.

Rydym wedi arwain gwaith, gan ddefnyddio proses Delphi, gyda chydweithwyr ar draws y Pedair Gwlad i gytuno ar set o ddiffiniadau a phwyntiau amser ar gyfer casglu dangosyddion bwydo babanod a fydd yn galluogi cymariaethau rhwng gwledydd yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn wedyn wedi bod yn sail i fframwaith bwydo babanod sy'n seiliedig ar ddata meintiol ar gyfer Cymru a fydd yn cael ei ymgorffori yn y cynnig digidol newydd ar gyfer cofnodion mamolaeth a'r rhaglen Plant Iach Cymru.

Am y tro cyntaf ers pedair blynedd, daethom â chydweithwyr yn y maes bwydo babanod ac Iechyd Cyhoeddus ynghyd o bob rhan o Gymru i ddathlu a rhannu arloesedd lleol i wella cyfraddau bwydo ar y fron yn ein digwyddiad Gwaith Gwych ym mis Hydref 2023. Mynychwyd y digwyddiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a'r Prif Swyddog Bydwreigiaeth. Dangosodd y gwerthusiad cymaint y mae cydweithwyr yn gwerthfawrogi gallu dod ynghyd i rannu arferion gorau ac rydym eisoes yn ymwybodol bod Byrddau Iechyd yn cyflwyno mentrau newydd yn seiliedig ar waith a gyflwynwyd yn y digwyddiad.

## 5.4 Bwyd Ysgol

Mae'r Tîm Maeth a Gordewdra Plant wedi sefydlu rhaglen waith benodol i wneud y mwyaf o botensial bwyd ysgol i leihau anghydraddoldebau a gwella canlyniadau iechyd a llesiant i blant.

Mae'r Tîm wedi cefnogi adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion gan arweinwyr iechyd cyhoeddus ac arbenigedd maeth penodol ym maes iechyd y cyhoedd. Rydym wedi cyhoeddi adolygiad cyflym o'r dystiolaeth wyddonol i lywio'r hyn sydd angen ei ddiweddaru yn y safonau maeth a bwyd. https://icc.gig.cymru/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau/adroddiad-technegol-adolygiad-cyflym-o-safonau-maeth-ar-rhai-syn-seiliedig-ar-fwyd-mewn-ysgolion-yng-nghymru-ar-du/

Ym mis Hydref 2023, fe wnaethom hwyluso gweithdy ar Ddamcaniaeth Newid i gefnogi rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i greu cytundeb a chyd-ddealltwriaeth o'r angen am Reoliadau a'r canlyniadau y dylai'r polisi fod yn anelu at eu cyflawni mewn perthynas ag iechyd a llesiant plant. Cafodd y Ddamcaniaeth Newid ei chyflwyno i Fwrdd Bwyd mewn Ysgolion mewnol Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2024.

Mae ein gwaith i gefnogi pobl i gyflawni a chynnal pwysau iachach wedi cynnwys datblygiad parhaus y cynnig digidol Pwysau Iach Byw'n Iach a lansiwyd ym mis Ionawr 2023

## 5.5 Llwybr Rheoli Pwysau

Mae ein gwaith i gefnogi pobl i gyflawni a chynnal pwysau iachach wedi cynnwys datblygiad parhaus y cynnig digidol Pwysau Iach Byw'n Iach a lansiwyd ym mis Ionawr 2023. Mae'r wefan hon yn darparu cynnig Lefel 1 ar gyfer Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan ac mae dros 100,000 o bobl wedi'i defnyddio ers ei lansio.

Fe wnaethom gynnal adolygiad o gynnydd ledled Cymru o ran gweithredu Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan a chyd-gynhyrchu set o fesurau a diffiniadau safonol i'w defnyddio ledled Cymru i helpu Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru i fesur effaith y llwybr.

Rydym hefyd wedi datblygu atodiad i Lywodraeth Cymru ar gyfer y llwybr rheoli pwysau yng Nghymru ar gyfer y meddyginiaethau rheoli pwysau newydd ac wedi ymateb i ymgynghoriadau cenedlaethol ar gyfer rheoli pwysau.

## 5.6 Dull System Gyfan

Rydym wedi parhau â'n gwaith i ymgysylltu â phob rhan o gymdeithas a'i symbylu i ddeall sut y gall gyfrannu at wrthdroi'r niferoedd nad oes ganddynt bwysau iach yng Nghymru. Ym mhob rhan o Gymru mae Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus yn arwain gwaith gyda phartneriaid lleol i gytuno ar faes blaenoriaeth i ganolbwyntio arno er mwyn cytuno ar gamau gweithredu ar y cyd. Rydym yn cefnogi'r gwaith hwn drwy helpu i ddarparu offer, hyfforddiant a hwyluso dysgu ar y cyd. Fel rhan o'r gwaith hwn, cafodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) eu cynnwys yn y gwaith o flaenoriaethu pwysau iach a hyd yma mae pwysau iach yn un o flaenoriaethau wyth BGC.

Rydym wedi datblygu a lansio asedau fideo i gefnogi dealltwriaeth o weithio drwy systemau a chefnogi'r gwaith o ymgysylltu â phartneriaid y system yng Nghymru. Rydym wedi dechrau gwaith sy'n canolbwyntio ar rôl cynllunio o ran helpu i lunio amgylcheddau iachach ac wedi cynnal digwyddiadau systemau cenedlaethol gan dynnu partneriaid o bob rhan o Gymru ynghyd i drafod a datblygu'r gwaith hwn. Bydd y gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen yn ystod y flwyddyn i ddod.



## 5.7 Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif

Dull newid ymddygiad yw Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif sy'n defnyddio'r miliynau o gysylltiadau y mae sefydliadau ac unigolion yn eu cael o ddydd i ddydd gyda phobl eraill i'w cefnogi i wneud newidiadau cadarnhaol i'w hiechyd a'u llesiant corfforol a meddyliol.

Er mwyn ymgorffori egwyddorion Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif a dulliau ataliol ar draws y system iechyd a gofal, cafodd y model rhesymeg ei ailwampio a'i ddosbarthu. Mae modelau rhesymeg yn adrodd stori ein prosiect neu raglen mewn diagram ac ychydig eiriau syml. Mae'n dangos cysylltiad achosol rhwng yr anghenion yr ydym wedi'u nodi, yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut y mae hyn yn gwneud gwahaniaeth i unigolion. Mae'n sail i waith ar ddatblygu camau gweithredu gan weithgor cenedlaethol Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif i sefydlu'r rhaglen o fewn y cwricwla, hyfforddiant, cofrestru ac achredu gweithwyr iechyd proffesiynol ac o fewn prosesau cofnodi, adrodd ac adnoddau dynol ar draws y GIG.

Ehangwyd hyfforddiant MECC ar-lein i gynnwys e-fodiwl lefel 1 generig wedi'i adnewyddu a gafodd ei dreialu gyda'r 1000 o weithwyr optometreg yng Nghymru, gyda 70% yn manteisio arno o fewn pythefnos i'w lansio.

## 5.8 Addysg ac Iechyd

Parhaodd y tîm Lleoliadau Addysgol i weithio i ddatblygu'r model cyflawni newydd gan ymgysylltu â thros 100 o ysgolion i ddatblygu'r Safonau Gofynnol newydd y gobeithiwn eu cyflwyno'n ffurfiol yn y flwyddyn i ddod yn amodol ar gytundeb Gweinidogol.

Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gydag athrawon ar draws y system i ddatblygu dull newydd o ymdrin ag adnoddau i gefnogi gweithredu maes dysgu Iechyd a Lles y Cwricwlwm i Gymru a chafwyd adborth cadarnhaol ar y gwaith a bydd yn parhau y flwyddyn nesaf.

## 5.9 Gweithgarwch Corfforol

Mae Dwylo Fyny, yr arolwg cenedlaethol Teithio i'r Ysgol, sy'n cael ei gydgysylltu gan raglen gweithgaredd corfforol yr Is-adran Gwella Iechyd, yn parhau i godi ei broffil a chynyddu o ran momentwm wrth iddo agosáu at ei drydedd flwyddyn; yn 2003 cymerodd dros 40,000 o ddisgyblion ran, gydag ymgysylltiad gan 270 o ysgolion cynradd ledled Cymru.

Mae'n rhoi gwybodaeth hanfodol i randdeiliaid ledled Cymru am deithio i'r ysgol y gellir ei defnyddio ar gyfer camau gweithredu strategol. Defnyddir y data hefyd gan ysgolion i ddatblygu eu cynlluniau teithio llesol ac ennyn diddordeb disgyblion mewn trafodaethau ar deithio llesol i'r ysgol. Yn 2024, rydym yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i annog mwy fyth o ysgolion i gymryd rhan.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda Chanolfan Ymchwil yr Amgylchedd ac Iechyd Prifysgol Abertawe i bennu faint o blant ledled Cymru a allai deithio'n llesol i'r ysgol yn ymarferol. Bydd y gwaith hwn, sy'n cynnwys defnyddio Banc Data SAIL, yn galluogi ysgolion a rhanddeiliaid strategol i asesu'r potensial ar gyfer newid mewn perthynas â theithio llesol i'r ysgol. Bwriedir darparu mynediad am ddim at y data.

Fel cam allweddol o'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Teithio Llesol i'r Ysgol, mae'r rhaglen gweithgaredd corfforol wedi bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu dull gweithredu sy'n seiliedig ar le ar gyfer teithio llesol i'r ysgol. Yn ystod 2023-2024 rydym wedi gweithio gyda sawl ysgol uwchradd ledled Cymru, ynghyd â rhanddeiliaid allweddol ym mhob lle, i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â theithio llesol i'r ysgol a rhoi camau gweithredu ar waith. Y nod oedd datblygu a phrofi ymyriad, gyda'r nod o'i fireinio a'i dreialu ymhellach yn 2024-2025. Elfen hanfodol o'r dull gweithredu yw ymgysylltu'n ystyrlon, nid yn unig ag ysgolion a'u disgyblion, ond hefyd â'r rhanddeiliaid lleol hynny sydd â'r pŵer (y cylch gorchwyl a'r cyllid) i fwrw ymlaen â chamau gweithredu; mae hyn yn cynnwys swyddogion teithio llesol awdurdodau lleol, timau iechyd cyhoeddus lleol, a chynghorwyr lleol. Gan ganolbwyntio ar nodi meysydd amgylcheddol penodol i'w gwella, mae'r dull gweithredu eisoes wedi bod yn llwyddiant a chafwyd cytundeb i wneud gwelliannau i lwybrau cerdded a beicio.

Gan weithio ochr yn ochr â'n Tîm Ymchwil a Gwerthuso newydd, rydym wedi cynnal gwaith ymchwil ansoddol manwl i ddeall profiadau prosiectau sy'n ymgymryd â gweithgareddau gwerthuso fel rhan o'r rhaglen Cronfa Iach ac Egnïol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gwaith, a fydd yn werthfawr iawn o ran meddwl am y dyfodol a chefnogi gwerthusiad o brosiectau cymunedol, eisoes wedi'i dderbyn ar gyfer ei gyflwyno mewn cynadleddau academaidd ac ar hyn o bryd ystyrir ei gyhoeddi mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid. Mae'r gwaith wedi dangos dull effeithiol o ymgorffori gwaith ymchwil a gwerthuso trwyadl mewn ymarfer a pholisi iechyd cyhoeddus.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu'r Dull Ysgol Gyfan Egnïol Dyddiol o Ymdrin â Gweithgaredd Corfforol, gan symud yr agenda bwysig hon yn ei blaen i wneud y mwyaf o gyfleoedd i blant a phobl ifanc fod yn gorfforol egnïol yn ystod y diwrnod ysgol a'r naill ben iddo. Mae hon yn elfen bwysig o'r strategaeth genedlaethol Pwysau Iach: Cymru Iach, ac mae'n rhan o'r thema lleoliadau iach.

# 6. Blaenoriaeth Strategol 4: Cefnogi'r gwaith o ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar

Cefnogi system iechyd a gofal gynaliadwy

## 6.1 Ymgorfforі Gwaith Atal

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar waith atal ar draws y system iechyd a gofal, drwy ddatblygu rhaglenni gwaith sy'n darparu dulliau trawsbynciol o ymwreiddio gwaith atal, yn ogystal â rhaglenni sy'n ymwneud â mynd i'r afael â ffactorau risg clinigol allweddol ar gyfer baich clefydau yng Nghymru.



Mae ein rhaglenni trawsbynciol yn cynnwys:

Datblygu Fframwaith 'Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Atal', a luniwyd ar y cyd â sefydliadau partner strategol allweddol ar draws y maes iechyd a gofal yng Nghymru, i alluogi gwaith atal i gael ei ymgorffori mewn ffordd gydgysylltiedig a systematig

Datblygu adnoddau i alluogi'r gweithlu i Gefnogi Ymddygiadau Iach mewn Gofal Sylfaenol a thrwy hynny gymryd camau pendant yn y maes atal.

Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, AaGIC ac Ysgol Ymchwil Presgripsiynu Cymdeithasol Cymru, i lansio'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn cynnwys cyhoeddiadau allweddol a ddatblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac a gyd-gynhyrchwyd gyda phartneriaid, sef Rhestr Termau a chyfres o Astudiaethau achos, ar bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru.



Mewn perthynas â mynd i'r afael â ffactorau risg clinigol allweddol, rydym wedi:

- Arwain y gwaith o sefydlu'r rhaglen genedlaethol 'Mynd i'r Afael â Diabetes Gyda'n Gilydd', gan weithio gyda Gweithrediaeth y GIG, byrddau iechyd a'r system iechyd cyhoeddus ehangach gyda'r nod o arafu'r cynnydd yn nifer yr achosion o ddiabetes math 2 a chynyddu nifer y bobl sy'n byw'n iach gyda diabetes yng Nghymru.
- Parhau i gydlynu'r gwaith o ddarparu Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan (AWDPP), cyhoeddi adroddiad ar weithgaredd y flwyddyn gyntaf, y gwerthusiad proses cenedlaethol cyntaf o'r AWDPP, a phrotocol wedi'i ddiweddaru, ochr yn ochr ag adroddiad ar fynychder diabetes.
- Cwblhau'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Atal Gordewdra Gofal Sylfaenol, a bydd adroddiad yn dilyn ddiwedd 2024, ar y cynnydd a'r hyn a ddysgwyd hyd yma.
- Sefydlu Rhaglen Atal Clefydau Cardiofasgwlaidd newydd, mewn cydweithrediad â'r Rhwydwaith Clinigol Strategol Cenedlaethol ar gyfer Clefydau Cardiofasgwlaidd.

**Mae anghydraddoldebau parhaus o ran mynediad at ofal deintyddol i blant yng Nghymru gyda 64.5% o blant sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf yn cael mynediad at ofal deintyddol o gymharu â dim ond 42.6% o blant sy'n byw yn y rhannau o Gymru lle ceir y lefelau uchaf o amddifadedd yn ystod 2021-23**

Mae rôl gwaith atal o ran cefnogi datblygiad system iechyd a gofal gynaliadwy yn cael ei chydnabod gan randdeiliaid a gobeithiwn adeiladu ar hyn i gefnogi symudiad ar raddfa gyfan tuag at waith atal yn y blynyddoedd i ddod.

Yn sgil ein gwaith i gynyddu gwaith atal drwy wasanaethau deintyddol sylfaenol, darparwyd mewnbwn parhaus i'r rhaglen genedlaethol i ddiwygio gwasanaethau deintyddol. Mae anghydraddoldebau parhaus o ran mynediad at ofal deintyddol i blant yng Nghymru gyda 64.5% o blant sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf yn cael mynediad at ofal deintyddol o gymharu â dim ond 42.6% o blant sy'n byw yn y rhannau o Gymru lle ceir y lefelau uchaf o amddifadedd yn ystod 2021-23. Rydym wedi cyflwyno achos dros newid i ddarpariaeth gofal deintyddol sy'n canolbwyntio ar waith atal a chanlyniadau ac sy'n seiliedig ar angen sydd hefyd yn anelu at fonitro a lleihau annhegwch o ran mynediad a chanlyniadau. Fe wnaethom ddangos bod achosion o ganser y geg yn cynyddu yng Nghymru gyda mwy na 300 o bobl yng Nghymru wedi cael diagnosis yn 2019, a nifer yr achosion yn codi o flwyddyn i flwyddyn ers 2002.

Archwiliodd ein Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol dros 9,300 o blant ysgol Blwyddyn 1 a dangosodd ein hadroddiad, a ddatblygwyd gydag Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru, ostyngiad yn nifer yr achosion a difrifoldeb y clefyd.

Fe wnaethom ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol a chydlynu rhaglen y Cynllun Gwên a arweiniodd at 1,003 o feithrinfeydd ac ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd yn cynnal sesiynau brwsio dannedd dan oruchwyliaeth yn ddyddiol (cymerodd 50,705 o blant ran yn y rhaglen) a 35,795 o blant yn cael o leiaf un dos o farnais fflworid mewn 544 o ysgolion.

Buom hefyd yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i amlygu sut y gall AGC gefnogi ein rhaglen cartrefi gofal (Gwên am Byth) i wella iechyd y geg ac ansawdd bywyd sy'n gysylltiedig â hynny i oedolion hŷn dibynnol.

Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol I Gymru
Dental Epidemiology Programme For Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

# Iechyd y geg ymhlith plant blwyddym un (5 oed) yn yr ysgol yng Nghymru 2022- 23


## Pwy gafodd ei archwilio?

Cafodd **9,376** o blant eu harchwilio o **612** o ysgolion y wladwriaeth a gynhelir ledled Cymru (tuag **1 o bob 3** o blant).*

## Sut y gwnaethom fesur iechyd y geg?


Fe wnaethom gyfrif nifer y dannedd a oedd yn pydru neu wedi eu llenwi neu eu tynnu oherwydd y clefyd. Yna fe wnaethom gyfrifo faint o blant oedd dannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi ledled Cymru (a elwir yn **nifer yr achosion**) a chyfrifo nifer cymedrig y dannedd a oedd wedi'u heffeithio gan bydredd fesul plentyn (a elwir yn **ddifrifoldeb**).*

## Nifer yr achosion o bydredd dannedd




Roedd ychydig o dan **1 o bob 3** o blant a archwiliwyd wedi'u heffeithio gan bydredd dannedd.

Ers 2007/08, gwelwyd gostyngiad yn **nifer yr achosion** o bydredd dannedd.





## Difrifoldeb pydredd dannedd

Ar draws yr holl blant a archwiliwyd, **roedd tuag 1 dant** wedi'i effeithio gan bydredd dannedd (y colofnau glas golau).

Roedd gan blant â phydredd dannedd **tua 3 1/2 o ddannedd** a oedd wedi'u heffeithio gan y clefyd (colofnau glas tywyll).


Ers 2007/08, gwelwyd lleihad yn **nifrifoldeb** pydredd dannedd.





## Anghydraddoldebau iechyd y geg ledled Cymru

Mae lefelau uwch o **achosion** a **difrifoldeb** pydredd dannedd i'w gweld ymysg plant o ardaloedd o amddifadedd. Nid yw'r patrwm hwn wedi newid ers 2007/08.

### Nifer yr achosion





Amddifadedd lleiaf





Amddifadedd mwyaf

### Difrifoldeb




Amddifadedd lleiaf





Amddifadedd mwyaf


## Dosbarthiad nifer yr achosion a'r difrifoldeb ledled Cymru

**Nifer yr achosion** a **difrifoldeb** pydredd dannedd ledled Cymru


Roedd nifer y plant â phydredd dannedd yn amrywio o 19.6% yn BIA Powys i 44.0% yn BIP Cwm *Tat* Morgannwg.




Roedd difrifoldeb pydredd dannedd yn amrywio o 0.64 yn BIA Powys i 1.54 yn BIP Cwm Taf Morgannwg.




## Effaith pydredd dannedd ledled Cymru




Roeddpydredd dannedd yn cael effaith negyddol ar **18.4%** o'r plant a archwiliwyd **(bron i 1 o bob 5)**

*Nid oedd data ar gaelar gyfer Ceredigion(BIP Hywel Dda)

Iechyd Cyhoeddus Cymru, Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Prifysgol Caerdydd a Byrddau Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am Raglen Epidemioleg Ddeintyddol GIG Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gweneud yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnal y rhaglen o dan Gylchlythyr Iechyd Cymru (2021) 32: Rôl a Darpariaeth Iechyd Cyhoeddus Deintyddol yng Nghymru.
Iechyd Cyhoeddus Cymru, Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Prifysgol Caerdydd a Byrddau Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am Raglen Epidemioleg Ddeintyddol GIG Cymru.
http://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/iechyd-cyhoeddus-deintyddol/gwybodaeth-iechyd-y-geg/

## 6.2 Trawsnewid Gofal Sylfaenol

Mae'r Is-adran Gofal Sylfaenol wedi gwneud cynnydd n â'r gwaith o fonitro a gwerthuso'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru (MGSiG) yn ystod 2023/24 gan gynnwys datblygu a chyflwyno ail gylch o adolygiadau gan gymheiriaid clwstwr, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn adroddiad adolygiad gan gymheiriaid o Glystyrau Gofal Sylfaenol ar gyfer 2022/23 a gyhoeddwyd yn y gwanwyn a oedd yn amlygu'r themâu allweddol a'r meysydd gweithredu a nodwyd o'r trafodaethau gyda chymheiriaid.

Ymgysylltwyd â chydweithwyr sy'n gweithio gydag/o fewn clystyrau dros y deuddeg mis diwethaf i gyd-gynhyrchu offeryn hunanfyfyrio gan glystyrau a gafodd ei dreialu ym mis Ionawr ac a lansiwyd ddiwedd mis Mawrth 2023. Nod y trafodaethau myfyriol arfaethedig yw casglu gwybodaeth gan glystyrau, ar ba mor 'aeddfed' yw'r broses o weithio mewn clystyrau o gymharu â deilliannau'r MGSiG a Datblygiad Clwstwr Carlam (DCC), gan gynnwys dealltwriaeth o'r ffactorau o fewn y system gofal sylfaenol a chymunedol, sy'n rhwystro neu'n hwyluso eu cynnydd tuag at gyflawni Cymru Iachach.

Mae gwaith wedi'i wneud i adolygu ac adnewyddu matrics aeddfedrwydd MGSiG a DCC, er mwyn adlewyrchu'n well y ffordd y mae clystyrau'n gweithio heddiw. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2024/25 wrth i bartneriaid ganolbwyntio ar ffyrdd o gryfhau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n darparu gofal sy'n seiliedig ar le. Mae gwaith cwmpasu hefyd wedi mynd rhagddo i ddatblygu cyfres o ddangosyddion allweddol ar gyfer gofal sylfaenol. Eto bydd y gwaith hwn yn dod i ben yn 2024/25.

Mae codi ymwybyddiaeth o waith clwstwr a MGSiG hefyd wedi symud ymlaen, drwy ddatblygu tudalen MGSiG ar wefan Gofal Sylfaenol Un a thrwy ddatblygu cwestiynau'n ymwneud â chlwstwr Gofal Sylfaenol yn arolwg Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru. Amlygodd yr Arolwg Amser i Siarad fod angen gwneud rhagor o waith i gynnwys ein cymunedau lleol yng ngwaith y clystyrau.

Mae'r Is-adran Gofal Sylfaenol wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, gan ddarparu cyngor a chymorth iechyd cyhoeddus ar amrywiaeth o feysydd pwnc, gan gynnwys datblygu cyfres o Fetrigau Gofal Sylfaenol, ymgysylltu â Grŵp Dysgu Gweithredol DCC a rhoi cymorth parhaus i ddatblygu adnoddau DCC ar wefan Gofal Sylfaenol Un. Rydym wedi cynnal ymarfer mapio i ddeall yr ystod o wasanaethau sy'n darparu Gofal Iechyd Sylfaenol i grwpiau agored i niwed ledled Cymru, wedi symud ymlaen â'r gwaith o ddatblygu fframwaith anghydraddoldebau iechyd ar gyfer gofal sylfaenol a gweithio gyda'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, ac wedi datblygu manyleb gwasanaeth Haen 2 a phorth adnoddau ar gyfer gwasanaethau cynhwysiant iechyd yn y maes gofal sylfaenol.

Mae gwefan Gofal Sylfaenol Un yn cael ei lletya gan yr Is-adran Gofal Sylfaenol ac mae'n darparu gwybodaeth ac yn cyfeirio pobl at amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i weithio mewn clystyrau yn y maes gofal sylfaenol yng Nghymru. Mae'r wefan yn adnodd pwysig i bartneriaid ac mae wedi cael ei hadolygu a'i hailwampio i sicrhau bod cynnwys Gofal Sylfaenol Un yn parhau i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r adolygiad wedi cynnwys Archwiliad o Adnoddau Cymraeg, datblygu tudalennau ac adnoddau newydd, a gwaith i leihau dyblygu, symleiddio gwybodaeth, a gwella taith ac ymgysylltiad defnyddwyr. Bydd y gwaith hwn yn parhau i ddefnyddio dull gwella ansawdd, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, i ddatblygu'r adnodd partneriaeth pwysig hwn ymhellach.

## 6.3 Helpu i ddatblygu Economi Llesiant yng Nghymru a thu hwnt

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) i ddatblygu a gweithredu Economi Llesiant sy'n canolbwyntio ar bobl a'r blaned yn hytrach nag ar elw. Helpodd Canolfan Gydweithredol WHO i Adnewyddu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Ranbarthol Ewrop WHO. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys meithrin gallu, cyfrannu gwybodaeth ac adnoddau, a rhannu arfer gorau o bob gwlad a sector, i lywio buddsoddi mewn gwaith atal, lleihau anghydraddoldebau iechyd, a chefnogi cymunedau mwy gwydn a chynaliadwy a'r GIG yng Nghymru. Mae hefyd yn cryfhau rôl arweiniol fyd-eang Cymru fel 'safle arloesi byw' ar gyfer llesiant, tegwch iechyd a ffyniant i bawb, heb adael neb ar ôl.

## 6.4 Dosbarth Meistr Gwerth Cymdeithasol yn ennyn diddordeb mawr ar draws y GIG a gweddill Cymru

Cynhaliwyd Dosbarth Meistr Gwerth Cymdeithasol 'Mesur Gwerth Iechyd y Cyhoedd' er mwyn cynyddu dealltwriaeth a thynnu sylw at yr angen i gofnodi gwerth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach rhaglenni iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn hanfodol fel sail i dystiolaeth a chyllid a buddsoddiad yn Seiliedig ar Werth mewn iechyd a llesiant. Cyflwyniad yw'r weminar sy'n anelu at feithrin gallu'r sefydliad a'r GIG i fesur effeithiau ar werth cyhoeddus a llesiant, gan ddefnyddio dull Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad a dulliau perthnasol eraill.

## 6.5 Ymchwil economeg iechyd y cyhoedd a chyfuno tystiolaeth i lywio polisi ac ymarfer

Rydym wedi arwain, cydlynu a chyhoeddi e-lyfr arbennig Frontiers in Public Health yn dwyn y teitl Trosi Ymchwil Economeg Iechyd i Weithredu Iechyd Cyhoeddus: Tuag at Economi Llesiant (Yn Saesneg un unig) gan gynnwys 15 o bapurau ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid gan 67 o awduron yn
fyd-eang. Rydym hefyd wedi datblygu cyfres o adolygiadau tystiolaeth a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion rhyngwladol a adolygir gan gymheiriaid i helpu i lywio cyllid a buddsoddiad sy'n Seiliedig ar Werth.

Mae'r rhai diweddaraf yn 2023/24 yn cynnwys cyfraniad golygyddol yn yr European Journal of Public Health sy'n dwyn y teitl: O 'seiliedig ar dystiolaeth' tuag at 'seiliedig ar werth' ar gyfer iechyd cyhoeddus: mesur yr hyn sydd fwyaf pwysig; Erthygl yn y cyfnodolyn Frontiers - Sports and Active Living yn dwyn y teitl: Enillion cymdeithasol o fuddsoddi mewn ymyriadau gweithgarwch corfforol a maeth – adolygiad cwmpasu (Yn Saesneg un unig) ac erthygl yn y cyfnodolyn Public Health yn dwyn y teitl: Datblygu'r fframwaith enillion cymdeithasol o fuddsoddi i gipio gwerth cymdeithasol ymyriadau iechyd cyhoeddus: cyfweliadau lled-strwythuredig ac adolygiad o adolygiadau cwmpasu (Yn Saesneg un unig).

Rydym wedi cyflwyno'r achos dros sicrhau bod iechyd a llesiant y boblogaeth yn sbardun i ddatblygiad economaidd yng Nghymru ac wedi dangos tystiolaeth o bwysigrwydd economaidd archwilio'r sector gofal iechyd i economi Cymru


## 6.6 Dadansoddiad Ôl Troed i archwilio cyfraniad y GIG at Economi Cymru er mwyn sbarduno'r Economi Llesiant

Gan gefnogi'r cynnydd o ran yr Economi Llesiant yng Nghymru, rydym wedi cyflwyno'r achos dros sicrhau bod iechyd a llesiant y boblogaeth yn sbardun i ddatblygiad economaidd yng Nghymru ac wedi dangos tystiolaeth o bwysigrwydd economaidd archwilio'r sector gofal iechyd i economi Cymru. Rydym wrthi'n cyhoeddi dogfen gryno (sy'n seiliedig ar papur academaidd a gyhoeddwyd) sy'n amlinellu bod y sector gofal iechyd yn gwneud cyfraniad mwy na'r cyfartaledd at bedair agwedd ar economi Cymru (allbwn, incwm, cyflogaeth, gwerth ychwanegol), yn unol â'i effaith ar yr ecosystem economaidd amgylchynol.

## 6.7 Gwerth Cymdeithasol ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

Er mwyn bwrw ymlaen â chymhwyso'r Fframwaith Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad, rydym wedi cynnal astudiaeth sy'n defnyddio dull arloesol drwy ddefnyddio lens a dull Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA), ar y cyd â'r fframwaith Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad i ddeall effeithiau hunan-samplu ar gyfer Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol mewn carchar agored yng Nghymru ar iechyd a'r elw cymdeithasol o fuddsoddiad.

Mae'r adroddiad a'r dogfennau ategol ar gael yma: 'Profion iechyd rhywiol hunan-weinyddol mewn carchar agored yng Nghymru: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a Dadansoddiad o Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad - Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (phwwhocc.co.uk)




## 6.8 Diogelu

Mae Gwasanaeth Diogelu'r GIG wedi parhau â'i rôl strategol o ran cydlynu a chefnogi Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru. Mae'r Rhwydwaith yn darparu pont hanfodol rhwng strategaeth a chyflawniad gweithredol ar lefel leol ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni datblygiadau polisi cenedlaethol ym myrddau ac ymddiriedolaethau iechyd GIG Cymru i gyflawni eu cyfrifoldebau i gadw plant ac oedolion agored i niwed yn ddiogel. Roedd gwelliannau allweddol i ymarfer yn cynnwys adnoddau '5 Munud o Ddarllen - Crynodeb am Ddiogelu' a gwaith penodol i gefnogi llesiant emosiynol teuluoedd a staff yn yr adolygiad o sut rydym yn ymateb i farwolaethau plant annisgwyl. Mae Adroddiad Blynyddol Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru a gyhoeddwyd yn yr haf yn adrodd yn erbyn cyflawniadau allweddol y Rhwydwaith yn 2022-2023, blwyddyn sy'n nodi 10 mlynedd ers sefydlu'r Rhwydwaith.

Offeryn hunanasesu yw'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu sy'n cefnogi gwella ansawdd prosesau diogelu ar draws GIG Cymru. Caiff yr offeryn ei ddefnyddio gan saith bwrdd iechyd a thair ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru ac mae gwybodaeth yn cael ei chasglu gan y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol i roi darlun cenedlaethol o wasanaethau diogelu GIG Cymru ledled Cymru. Dros y cyfnod diwethaf, cafodd yr offeryn Matrics Aeddfedrwydd Diogelu ei ddiweddaru gan y tîm yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unol â'r canllawiau Dyletswydd Ansawdd i sicrhau bod gwasanaethau diogelu ledled Cymru yn ddiogel ac yn ddibynadwy ac yn gallu cyfrannu at adroddiadau sefydliadol a chenedlaethol ar ansawdd. Datblygwyd yr offeryn gyda chyfraniad y Prif Swyddog Nyrsio, Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru.

Datblygwyd templed fframwaith y GIG hefyd sy'n cefnogi sefydliadau GIG Cymru i gyhoeddi strategaethau diogelu cyson. Mae'r ddogfen genedlaethol yn hwyluso amrywiadau lleol yn eu portffolios a'r modd y darperir gwasanaethau er mwyn sicrhau cysondeb. Mae'r templed a'r strategaeth enghreifftiol yn cyd-fynd â'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal sydd i'w defnyddio gan arweinwyr diogelu corfforaethol gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithredu fel y sefydliad profi. Mae pob sefydliad wedi cael cymorth i greu ei strategaeth ei hun dros y deuddeg mis diwethaf drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Cafodd Datganiad Ansawdd mewn Diogelu ar gyfer GIG Cymru sy'n amlinellu 10 blaenoriaeth ansawdd allweddol ei gyd-greu i gefnogi gweithrediad y Ddyletswydd Ansawdd ac i gryfhau sicrwydd mewn perthynas â diogelu. Mae'r datganiad yn egluro sut beth yw 'da' ym maes diogelu o fewn GIG Cymru ac yn hwyluso ymwybyddiaeth o'r bobl sydd angen i ni eu hamddiffyn fwyaf. Cynhyrchwyd y ddogfen gyda rhanddeiliaid sy'n cynrychioli gofal cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth y GIG ac Arolygiaeth Iechyd Cymru. Ei huchelgais yw sicrhau ei bod yn cyd-fynd â Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal, a phrosesau sicrwydd amlasiantaeth eraill sy'n datblygu. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gryfhau ymhellach gan adolygiad y Prif Swyddog Nyrsio o Gryfhau Trefniadau Diogelu yn y maes Iechyd sydd i'w gwblhau ym mis Mai 2024.

Cefnogodd Gwelliant Cymru y gwaith o ddatblygu a chyflwyno pecyn e-ddysgu ar y Ddyletswydd Ansawdd ledled Cymru

## 6.9 Gwelliant Cymru

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Gwelliant Cymru i arwain y gwaith o lunio adroddiad darganfod cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad a'i ganfyddiadau ym mis Gorffennaf 2023. Ers hynny, mae'r tîm Mamolaeth a Newyddenedigol a benodwyd i arwain y gwaith hwn wedi troi ei sylw at gefnogi gwaith cenedlaethol mewn dau faes gyda'r nod o leihau amrywiad. Mae'r ffocws wedi bod ar nodi a chynyddu gofal y fam neu'r babi y mae eu cyflwr yn dirywio, a gweithio i leihau gwahanu'r fam a'r babi drwy leihau derbyniadau o fabanod newydd-anedig cyfnod llawn. Lansiwyd y gwaith hwn ym mis Ionawr 2024.

Mae Gwelliant Cymru wedi gweithio ar y cyd â Rhwydwaith Canser Cymru a byrddau iechyd, i ymgysylltu â Toyota ar Lannau Dyfrdwy er mwyn defnyddio ei ddulliau addysgu a hyfforddi i ddod o wneud y gorau o lwybrau gofal er mwyn cefnogi llwybrau gofal canser, gyda'r nod o leihau'r amser o'r cam atgyfeirio i'r cam pan wneir penderfyniad ynghylch a oes gan y claf ganser ai peidio. Mae'r hyn a ddysgwyd o fethodolegau System Gynhyrchu Toyota, ynghyd â hyfforddiant lleol, wedi'i ddefnyddio mewn tri cham gyda grŵp bach o dimau amlbroffesiwn ledled Cymru a hefyd tair adran Batholeg. Mae'r gwaith wedi cael croeso brwd gyda thimau'n adnabod y cyfle i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd ganddynt i ad-drefnu eu prosesau lleol, cynyddu capasiti i'r eithaf a gwella llif y llwybrau gofal. Gwelir gwelliannau penodol yn yr amser cyffredinol a gymerir i'r adran patholeg cellog brosesu samplau cleifion. Mae Gwelliant Cymru hefyd yn gweithio gyda'r Rhaglen Genedlaethol Gofal wedi'i Gynllunio i archwilio cyfleoedd i ehangu a lledaenu'r hyn a ddysgwyd.

Cefnogodd Gwelliant Cymru y gwaith o ddatblygu a chyflwyno pecyn e-ddysgu ar y Ddyletswydd Ansawdd ledled Cymru.

At hynny, mae Hyb Gwella ac Arloesi Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflwyno cynllun 2 flynedd cynhwysfawr i gefnogi ein huchelgeisiau o ran gwelliant. Roedd hyn yn cynnwys fframwaith clir ar gyfer gwaith gwella haenau 1, 2 a 3 ar draws y sefydliad. Gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o flwyddyn 1, mae'r cymorth ar gyfer gwaith blaenoriaeth strategol haen 1 wedi'i gryfhau'n ddiweddar drwy sicrhau cyfatebiaeth rhwng gwyddor gwella â dull cryf o reoli prosiectau.

# 7. **Blaenoriaeth Strategol 5:** Darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol i ddiogelu'r cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl i'r boblogaeth

**Darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu ystod eang o wasanaethau i'r cyhoedd a chymorth i bartneriaid sy'n helpu i ddiogelu'r cyhoedd ac atal niwed fel bod poblogaeth Cymru yn cael y canlyniadau iechyd gorau posibl.

Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau i:

- ddiogelu'r cyhoedd rhag effeithiau heintiau, gan gynnwys cefnogi brechu, diagnosteg ac ymateb
- diogelu pobl rhag dod i gysylltiad â niwed amgylcheddol, megis llygredd aer
- darparu ein rhaglenni sgrinio cenedlaethol
- paratoi ar gyfer argyfyngau ac ymateb iddynt
- cefnogi gwaith rheoli heintiau mewn gofal iechyd a
- chefnogi'r defnydd effeithiol o wrthfiotigau a gostyngiadau mewn ymwrthedd i wrthfiotigau.

Er mwyn sicrhau'r gorau i boblogaeth Cymru, credwn fod yn rhaid i ni anelu at ragoriaeth ym mhopeth a wnawn. Credwn fod gwasanaeth rhagorol yn un sydd yn:

- **ddiogel** – dylai gwasanaethau allu dangos eu bod yn ddiogel a bod ganddynt fwy o fanteision na risgiau
- **amserol** – dylai gwasanaethau fod yno pan fydd eu hangen a dylent ymateb yn brydlon
- **effeithiol** – dylai gwasanaethau sicrhau'r canlyniad y bwriedir iddynt ei gael
- **effeithlon** – dylai gwasanaethau gael eu darparu yn y ffordd fwyaf effeithlon
- **teg** – dylai gwasanaethau weithio'n galetach i bobl a chanddynt fwy o anghenion
- **canolbwyntio ar yr unigolyn** – dylai gwasanaethau ymgysylltu'n rheolaidd ac yn weithredol â phobl a rhoi eu hanghenion wrth wraidd y ddarpariaeth

Mae sut yr ydym yn darparu ein gwasanaethau i ddiogelu a gwella iechyd pobl Cymru yn hollbwysig, mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2020) yn amlygu pa mor bwysig yw hi bod y GIG cyfan yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel a fydd yn gwella gofal yn y dyfodol. O ganlyniad, mae'r cydweithio gyda'n partneriaid i gyflawni rhagoriaeth gyda'n gilydd yn hollbwysig i ni.



## 7.1 Cyflawniadau allweddol

Yn ystod gaeaf 2023/24, atgoffwyd ein timau o'r effaith sylweddol y gall achosion o glefydau heintus ei chael ar unigolion a chymunedau. Rhoddodd y nifer fawr o achosion o'r pas ein gwasanaethau dan bwysau mawr a gweithiodd ein timau diogelu iechyd yn galed i ymateb i'r bygythiad. Ym mis Rhagfyr 2023, gwelwyd y brigiad cyntaf o achosion o'r frech goch yng Nghymru ers y Pandemig yn Ardal Caerdydd. Gydag achosion o'r frech goch ar gynnydd ledled y DU, bu'r Is-adran Diogelu Iechyd yn gweithio gyda phartneriaid i atal yr achosion, ac i roi cyngor ar frechu, atal heintiau ac ymateb i wneud yn siŵr bod Cymru'n barod ar gyfer achosion.

Mae'r Gwasanaethau Heintiau wedi parhau i ddarparu profion ledled Cymru, gan dderbyn a phrosesu dros 1.4 miliwn o samplau. Roedd hyn yn cynnwys mwy o weithgarwch i gefnogi'r system i wella ar ôl y pandemig COVID-19 a mwy o weithgarwch dewisol. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflawnwyd sawl prosiect gan gynnwys:

- Contract caffael cenedlaethol ar gyfer ymestyn profion moleciwlaidd cyflym syndromig,
- Contract newydd ar gyfer y gwasanaeth profion moleciwlaidd gastroberfeddol
- Contract ar gyfer profion canolog arbenigol ar y Brif System Nerfol yng Nghanolfan Firoleg Arbenigol Cymru.

Rydym yn darparu, yn monitro ac yn gwerthuso saith rhaglen sgrinio'r boblogaeth, ac yn cydlynu rhwydwaith clinigol a reolir ar gyfer sgrinio cyn geni, sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Ein gweledigaeth, ar draws y rhaglenni sgrinio cenedlaethol yng Nghymru, yw bod pawb sy'n gymwys i gael eu sgrinio yn cael mynediad cyfartal a chyfle i fanteisio ar eu cynnig sgrinio gan ddefnyddio gwybodaeth ddibynadwy i wneud dewis gwybodus personol. Nodau'r rhaglenni yw lleihau nifer yr achosion o glefydau neu wella diagnosis cynnar i leihau effaith y clefyd. Mae gan yr adran hanes cryf o werthuso a rhaglen gynhwysfawr o welliannau a datblygiadau yn unol â phenderfyniadau polisi.

O fis Hydref 2023, dechreuwyd gwahodd pobl rhwng 51 a 54 oed i'r rhaglen sgrinio'r coluddyn. Fe wnaethom hefyd gynyddu sensitifrwydd y pecyn prawf i ganfod canser y coluddyn yn well ymysg y rhai sydd mewn perygl. Gwnaed cynnydd sylweddol eleni o ran adfer y rhaglen sgrinio'r fron a'r rhaglen sgrinio llygaid diabetig ar ôl y pandemig. Mae'r rhaglen sgrinio'r fron wedi gwella ei phrydlondeb yn sylweddol ac mae ar y trywydd iawn i adfer yn gyfan gwbl erbyn haf 2024. Mae'r rhaglen sgrinio llygaid diabetig wedi clirio'r ôl-groniad ac yn gweithio i wella prydlondeb y profion sgrinio.

## Rydym yn parhau i ddarparu gwasanaeth genomeg sy’n arwain y byd, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dilyniannu mwy na 25,000 o genomau pathogen yn ystod y deuddeg mis diwethaf

Rydym yn parhau i ddarparu gwasanaeth genomeg sy’n arwain y byd, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dilyniannu mwy na 25,000 o genomau pathogen yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Gan gydnabod pwysigrwydd cynyddol genomeg ym maes iechyd y cyhoedd, rydym wedi parhau i ddatblygu ein gallu genomeg drwy drefnu Rhaglen Genomeg Iechyd y Cyhoedd traws-sefydliadol, sydd wedi goruchwylio cyflawniadau allweddol gan gynnwys:

- Cwblhau Canolfan Iechyd Genomig Cymru (CIGC) gwerth £16 miliwn sy’n cydleoli gweithgarwch genomeg clinigol, iechyd y cyhoedd ac academaidd Cymru mewn un lleoliad. Chwaraeodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ran allweddol yn y gwaith o gwblhau’r ganolfan, ac mae’n un o’i thenantiaid cyntaf. Bydd CIGC yn darparu cyfleuster allweddol i hyrwyddo datblygiad genomeg yng Nghymru, gan gefnogi twf gwasanaethau genomeg a ddatblygir ac a ddarperir mewn partneriaeth â’n cleifion a phoblogaeth Cymru.
- Gweithio gyda phartneriaid Partneriaeth Genomeg Cymru i ddatblygu achos busnes strategol ar y cyd gwerth £1.5 miliwn ar gyfer datrysiad Cymru gyfan ar gyfer storio data dilyniant genomig yn yr hirdymor, i gefnogi twf gweithgarwch genomeg yng Nghymru.
- Cyflwyno gwelliannau i’n gwasanaethau presennol i leihau amseroedd gweithredu a chyfraddau methu, gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn gyflymach i gefnogi camau gweithredu clinigol neu iechyd cyhoeddus.

Mae ein gwasanaethau hefyd yn canolbwyntio ar gyflawni agweddau allweddol ar ragoriaeth, a rhoddir enghreifftiau isod.

**Diogel**

Mae Bron Brawf Cymru wedi comisiynu fflyd newydd o gerbydau sgrinio symudol. Mae’r fflyd o unedau wedi’u cynllunio drwy roi ystyriaeth i reolaethau atal heintiau. Gellir glanhau pob arwyneb yn hawdd ac maent wedi’u cynllunio i fod â chylchrediad aer effeithiol. Maent hefyd wedi’u cynllunio i gael opsiwn system un ffordd fel nad oes rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau basio ei gilydd gan wella diogelwch a phrofiad y claf. Mae’r ffonau symudol yn rhai hybrid er mwyn lleihau’r ddibyniaeth ar danwydd diesel. Rydym yn defnyddio adborth cleifion am yr amgylchedd y cânt eu sgrinio ynddo er mwyn gwneud gwelliannau pellach os oes angen.

## Amserol

Ym mis Mawrth 2023, roedd y rhaglen sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol wedi adfer yn llwyr o'r seibiant yn ystod y pandemig COVID-19. Roedd hyn yn cyd-daro â 10 mlynedd ers sefydlu'r rhaglen – gwasanaeth sy'n parhau i achub bywydau drwy ganfod ymlediadau ansymptomatig sy'n addas ar gyfer llawdriniaeth gynnar er mwyn atal rhwyg angheuol annisgwyl. Mae rhaglenni Sgrinio'r Fron a Sgrinio Llygaid Diabetig wedi gwneud gwelliannau sylweddol tuag at adferiad ac yn lleihau nifer y bobl sy'n aros i gael eu sgrinio, gyda chymorth targedu a blaenoriaethu effeithiol yn rhannol ac agor lleoliad sgrinio newydd yn Kimberley House yn gynharach yn 2023. Mae'r Rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig hefyd wedi gweithredu'r llwybr risg isel ar gyfer sgrinio llygaid diabetig, gan ei galluogi i ganolbwyntio ar gynnig apwyntiadau amserol i'r rhai sydd mewn mwy o berygl o golli eu golwg.

Bellach cynhelir tua 700 o brofion labordy cyflym ar draws 14 labordy bob mis. Mae nifer o heintiau yn achosi problemau mewn ysbytai o ran Rheoli Heintiau. Er enghraifft, gall achosion o'r norofeirws beri i wardiau gau a cholli gwelyau, gall cleifion y mae bacteria ag organebau ymwrthol wedi cytrefu ynddynt achosi problemau o ran eu lleoli a'u llif drwy'r ysbyty. Gall adnabod organebau/cyflyrau rhybudd yn gyflymach arwain at eu rheoli'n gyflymach a lleddfu pwysau ar welyau. Rydym wedi cyflwyno profion moleciwlaidd cyflym ar draws y rhwydwaith labordai ar gyfer heintiau gan gynnwys ar gyfer Norofeirws, Clostridium Difficile a Staffylococws Awrews sy'n gwrthsefyll Methisilin (MRSA). Mae'r profion hyn bellach yn cael eu darparu mewn 14 o ysbytai acíwt ledled Cymru a gallant roi canlyniadau o fewn dwy awr, o gymharu â phrofion confensiynol a fyddai'n cymryd 1-2 ddiwrnod fel arfer.

Mae'r tîm Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol yn gweithio i ddiogelu iechyd ac atal niwed i iechyd, a chynyddu'r manteision iechyd, sy'n gysylltiedig â pheryglon amgylcheddol a hinsawdd sy'n newid. Drwy'r gwaith hwn mae hefyd yn ceisio lleihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau iechyd yn sgil peryglon amgylcheddol a hinsawdd sy'n newid, drwy wella iechyd i bawb. Fe wnaeth y tîm hyn, yn bennaf, drwy ddarparu gwasanaeth adweithiol a ymatebodd i ddigwyddiadau ac ymholiadau iechyd cyhoeddus amgylcheddol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi darparu ymateb amserol i ddigwyddiadau acíwt, megis y ffrwydrad ar Ystâd Ddiwydiannol Trefforest a sefyllfaoedd tymor hwy eraill gan gynnwys digwyddiad tirlenwi Withyhedge.

Gall gwasanaeth sgrinio'r coluddyn helpu i ddod o hyd i ganser y coluddyn yn gynnar, pan nad oes gan unigolyn unrhyw symptomau. Mae canfod canser yn gynnar yn bwysig oherwydd bydd o leiaf 9 o bob 10 o bobl yn goroesi canser y coluddyn os caiff ei ganfod a'i drin yn gynnar. Hefyd, mae sgrinio'r coluddyn yn canfod ac yn tynnu polypau cyn-ganseraidd a allai ddatblygu'n ganser pe baent yn cael eu gadael yn y coluddyn. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y rhaglen wedi cynyddu gyda 65% o bobl yn manteisio ar y cynnig. Mae ehangu'r rhaglen i gynnwys y rhai 51-54 oed yn cynyddu'r achosion o Ganser y Coluddyn a gaiff eu canfod yn gynnar.

## Effeithiol

Mae'r adran Diogelu Iechyd wedi canolbwyntio mwy ar gapasiti ymchwil o fewn yr isadran tra'n parhau i gefnogi camau gweithredu a amlinellwyd yn y strategaeth dileu'r Frech Goch a Rwbela, gan greu setiau data sy'n gysylltiedig â chanlyniadau ar draws dau faes clefydau a threialu galluoedd i ganfod brigiadau a chlystyrau o achosion.

Ym mis Tachwedd 2023, cwblhawyd ein hadolygiad o Gynllun Rheoli Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy Cymru Gyfan.  Wedi'i arwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, roedd yn cynnwys partneriaid o bob rhan o'r system diogelu iechyd, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd Byrddau Iechyd a Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Awdurdodau Lleol. Mae'r cynllun yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o COVID-19 ac yn helpu i egluro rolau a chyfrifoldebau er mwyn ein galluogi i ymateb yn fwy amserol a chydgysylltiedig ar draws y system.  Wedi'i integreiddio yn y cynllun mae cyflwyno safonau ar gyfer ymateb i frigiadau o achosion, sy'n arf defnyddiol ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae Labordy'r Is-adran Sgrinio yn darparu gwasanaeth i bump o'r byrddau iechyd yng Nghymru sy'n anfon prawf imiwnocemegol ysgarthol (FIT) at gleifion sydd â symptomau canser y coluddyn ac yna'n eu profi yn unol â'r llwybr delfrydol cenedlaethol. Gwneir atgyfeiriadau i'r gwasanaeth FIT Symptomatig gan y clinigydd gan ddefnyddio ffurflen ar-lein sy'n benodol ar gyfer y gwasanaeth hwn. Mae'r atgyfeiriad yn arwain at anfon pecyn prawf a gwybodaeth ategol i gyfeiriad cartref y claf; mae'r claf wedyn yn cwblhau'r pecyn ac yn ei ddychwelyd i'r labordy gan ddefnyddio amlen ragdaledig. Ar ôl eu derbyn yn y labordy, mae'r manylion yn cael eu gwirio, ac os nad oes unrhyw broblemau, caiff y sampl ei brofi a rhoddir y canlyniad i'r clinigydd o fewn 24 awr.

O fis Mehefin 2023, mae pobl sydd â risg isel o gael clefyd llygaid diabetig yn cael eu gwahodd i gael prawf sgrinio llygaid diabetig bob dwy flynedd yn hytrach na phob blwyddyn ac mae pawb arall yn cael eu sgrinio fel arfer. Mae tystiolaeth yn dangos os na chanfyddir clefyd llygaid diabetig yn y ddau brawf sgrinio llygaid diabetig diwethaf, yna mae'n ddiogel cael eich sgrinio bob dwy flynedd.

Cymeradwywyd fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Ymateb Brys Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ein Bwrdd ym mis Mai 2023. Mae'n disgrifio ein rolau a'n cyfrifoldebau mewn ymateb i argyfwng neu ddigwyddiad mawr, yn ogystal â darparu fframwaith ar gyfer ei drefniadau ysgogi a dadactifadu, strwythurau gorchymyn a rheoli, a threfniadau adfer. Mae hyn yn sicrhau pan fydd argyfyngau'n digwydd, ein bod yn gallu ymateb yn effeithiol i gefnogi diogelu iechyd dynol yn unol â'n rhwymedigaethau. Er mwyn helpu i ddilysu'r cynllun a'r trefniadau cysylltiedig, cynhaliwyd ymarfer CYHYRAETH ym mis Ionawr 2024, wedi'i hwyluso gan ein Tîm Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys er mwyn profi'r trefniadau ar bob lefel.

## Effeithlon

Cydnabyddir bod ymwrthedd gwrthficrobaidd yn fygythiad byd-eang sylweddol ac adolygodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ar ymwrthedd gwrthficrobaidd cyn i'r cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y DU gyfan gael ei adnewyddu. Mae strategaeth ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru yn nodi argymhellion ar gyfer y GIG yng Nghymru a bydd tîm HARP yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarparu arweinyddiaeth, cymorth a chyngor i'r system er mwyn cyrraedd targedau Cymru. Ar lawr gwlad, mae ein timau diogelu iechyd a heintiau wedi cefnogi ymchwilio i achosion o facteria yn y gwaed sydd uwchlaw'r lefelau derbyniol sy'n gysylltiedig ag ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn ysbyty a rheoli'r achosion hynny, gan ddarparu cymorth dilyniannu epidemiolegol a genomig i lywio'r gwaith o reoli'r digwyddiad. Mae'n enghraifft dda o waith rhagweithiol ac integredig rhwng ein timau.

Roedd hyfforddiant yn parhau i fod yn faes y rhoddwyd llawer o ffocws ac egni iddo a datblygodd y timau hyfforddi offeryn ar gyfer y myfyrwyr portffolio arbenigol yn yr adran heintiau sy'n caniatáu mwy o oruchwyliaeth ar gynnydd a gofynion. Er bod y galw ar y gwasanaeth i 'ddarparu a hyfforddi' gyda'r un garfan o Wyddonwyr Biofeddygol arbenigol ac uwch yn parhau i fod yn uchel, mae'r momentwm yn cynyddu a bydd nifer yr Uwch Wyddonwyr Biomeddygol sydd newydd gymhwyso yn cynyddu dros y 12-18 mis nesaf fel rhan o'n rhaglen 'Datblygu Ein Gweithlu ein Hunain'.

**Teg**

Fel rhan o'n Rhaglen Cynhwysiant Iechyd Clefydau Trosglwyddadwy, cyhoeddwyd adroddiad blynyddol Iechyd Rhywiol ym mis Gorffennaf 2023 sy'n rhoi trosolwg o'r gwasanaeth profi Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol. Mae profion am Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol yng Nghymru ar eu huchaf ers 10 mlynedd, roedd cyfleuster profi'r gwasanaeth post yn cyfrif am o leiaf 50% o'r holl brofion ar gyfer pobl yng Nghymru, gan roi cyfle i bobl nad ydynt eisiau gofyn am gymorth a chyngor gan eu meddyg teulu neu glinig iechyd rhywiol i gael profion am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. Mae hyn wedi golygu ein bod wedi gallu nodi achosion o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol na fyddent wedi cael diagnosis fel arall a chynnig triniaeth i reoli lledaeniad pellach. Mae gwaith pellach gyda'n partneriaid wedi parhau gyda'r adolygiad o feysydd sy'n flaenoriaeth yn y maes iechyd rhywiol ar gyfer 2020-2024.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn cydweithrediad â Gwelliant Cymru ac Anabledd Dysgu Cymru wedi cyd-gynhyrchu fideo newydd a chanllaw hawdd ei ddeall i gefnogi pobl ag anabledd dysgu i egluro'r broses o gael eu gwahodd a chael brechiad. Nod yr adnoddau yw cefnogi pobl ag anabledd dysgu i wneud dewisiadau am frechu ar sail gwybodaeth. Bydd yr adnoddau hyn hefyd yn helpu i wneud pobl yn ymwybodol o sut y gallant wneud cais am addasiadau rhesymol i'w helpu i gael brechiad. Mae'r fideo yn dangos person a'i ofalwr yn ymweld â'i feddygfa i gael brechlyn rhag y ffliw. Mae'n amlygu rhai o'r hwyluswyr allweddol i gefnogi person ag anabledd dysgu i gael ei frechiad, gan gynnwys gofyn am addasiadau rhesymol cyn yr apwyntiad, a chymorth i ymdrin ag ofn y claf o nodwyddau.

### Canolbwyntio ar yr unigolyn

Mae ein Rhaglen Afiechydon Ataliadau Trwy Frechu hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gyflawni uchelgeisiau Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru, gan wella ein dulliau o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran nifer y rhai sy'n cael eu brechu a darparu cyngor arbenigol mewn strwythurau llywodraethu newydd drwy drawsnewid y gwasanaeth brechu. Mae'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol yn canolbwyntio ar gyd-gynhyrchu gwybodaeth cleifion gyda'r cyhoedd a phartneriaid. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn cydweithrediad â Gwelliant Cymru ac Anabledd Dysgu Cymru wedi cydgynhyrchu fideo newydd a chanllaw hawdd ei ddeall i gefnogi pobl ag anabledd dysgu i egluro'r broses o gael eu gwahodd a chael brechiad.  Nod yr adnoddau yw cefnogi pobl ag anabledd dysgu i wneud dewisiadau am frechu ar sail gwybodaeth. Bydd yr adnoddau hyn hefyd yn helpu i wneud pobl yn ymwybodol o sut y gallant wneud cais am addasiadau rhesymol i'w helpu i gael brechiad. Mae'r fideo yn dangos person a'i ofalwr yn ymweld â'i feddygfa i gael brechlyn rhag y ffliw. Mae'n amlygu rhai o'r hwyluswyr allweddol i gefnogi person ag anabledd dysgu i gael ei frechiad, gan gynnwys gofyn am addasiadau rhesymol cyn yr apwyntiad, a chymorth i ymdrin ag ofn y claf o nodwyddau.

Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio wedi nodi bylchau yn y wybodaeth hygyrch a ddarperir ar draws y llwybr sgrinio. Mae grŵp prosiect hygyrch wedi'i sefydlu. Nod y gwaith hwn yw sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn Iaith Arwyddion Prydain ac mewn fformat Hawdd ei Deall, o'r gwahoddiad hyd at yr asesiad. Mae'r ffocws cychwynnol wedi bod ar sgrinio'r fron. Mae dau adnodd newydd ar gael yn iaith arwyddion Prydain nawr. Nod y fideos 'Eich helpu chi i benderfynu' a 'Rhesymau pam rydych chi angen prawf arall' yw cefnogi pobl i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am gymryd rhan mewn profion sgrinio a pharatoi pobl sy'n cael eu gwahodd yn ôl ar gyfer profion pellach. Mae fersiwn Hawdd ei Deall o 'Rhesymau pam rydych chi angen prawf arall' hefyd wedi'i datblygu. Mae sefydliadau amhariadau ar y synhwyrau wedi cefnogi'r broses o'u datblygu. Mae eu hadborth wedi arwain at rannu'r fideos yn benodau byr a chael yr opsiwn o isdeitlau Cymraeg a Saesneg.

Mae tîm iechyd y cyhoedd amgylcheddol wedi bod yn gweithio ar y cyd â phartneriaid i ddatblygu cynlluniau gwaith tymor hwy i ddiogelu'r cyhoedd yng Nghymru rhag peryglon amgylcheddol i iechyd y cyhoedd. Er enghraifft, mae'r tîm wedi bod yn gweithio gyda Croeso Cymru i godi ymwybyddiaeth o beryglon carbon monocsid, ac yn gweithio gyda chydweithwyr clinigol i ddatblygu llwybrau hysbysu a rheoli i leihau amlygiad plant i blwm. Mae'r tîm hefyd yn chwarae rhan weithredol yn y broses o roi sylwadau ar geisiadau cynllunio a thrwyddedu, yn ogystal ag ymateb i ymgynghoriadau ehangach.

At hynny, mae'r tîm yn ymdrechu'n barhaus i gymryd camau "rhagweithiol" tymor hwy i ddiogelu a hybu iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn golygu gweithio'n agos gyda thimau mewn rhannau eraill o'n sefydliad a chyda phartneriaid allanol, megis Llywodraeth Cymru, ar sawl maes gwaith arall. Er enghraifft, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm wedi bod yn rhan o'r Panel Cynghori ar Aer Glân a datblygiad y Bil Aer Glân, cyflwyno'r ddeddfwriaeth 20mya, a deddfwriaeth ynghylch tomennydd glo risg uchel.

## 7.2 Arweinyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth

Ni welwyd unrhyw achosion o'r frech goch yng Nghymru rhwng 2020 a haf 2023. Roedd nifer yr achosion o'r frech goch a oedd yn cylchredeg yn fyd-eang yn cynyddu yn dilyn gostyngiad yn ystod y pandemig. Roedd potensial ar gyfer achosion a chlystyrau yng Nghymru, gan achosi niwed ataliadwy. Yn 2023 rhoddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wybod i bartneriaid fod yna fygythiad sylweddol i iechyd yn sgil y frech goch oherwydd bod llai o bobl yn cael y brechlyn MMR mewn rhai ardaloedd. Drwy gydol 2023, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid ar adnewyddu'r cynllun gweithredu i ddileu'r frech goch a rwbela. Mewn ymateb i achos yng Nghaerdydd ym mis Rhagfyr 2023, buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG i nodi camau gweithredu ar unwaith yn seiliedig ar dystiolaeth yr oedd angen eu cymryd er mwyn lleihau'r bygythiad. Datblygwyd gwybodaeth gyhoeddus a gwnaed gwaith i sicrhau bod y GIG yng Nghymru yn barod i ymateb i achos sylweddol o'r frech goch. Roedd y rhain yn cynnwys gwaith wedi'i dargedu i wella'r nifer sy'n cael eu brechu ymhlith plant oedran ysgol ac ymysg gweithwyr gofal iechyd gan fod y rhain yn lleoliadau lle mae clefydau'n cael eu trosglwyddo. Datblygwyd offer a oedd yn galluogi partneriaid i fesur gwelliant yn y nifer sy'n manteisio ar MMR mewn ysgolion yn rheolaidd, a chynhaliwyd ymchwil i ddeall pa ffactorau a oedd yn gysylltiedig â'r nifer fach sy'n cael MMR (e.e. y drefn y cafodd y plant eu geni).

Mabwysiadodd y rhaglenni Sgrinio Mamau a Phlant (Sgrinio Cyn Geni Cymru, Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru a Sgrinio Clyw Babanod Cymru) ddull 'digidol yn gyntaf' o ddarparu gwybodaeth cyn prawf ddiwedd 2022.

Mae'r adnoddau digidol yn cynnwys animeiddiadau, delweddau a gwybodaeth sy'n seiliedig ar destun. Mae offer hygyrchedd wedi'u hymgorffori yn y tudalennau gwe, gan gynnwys darllen yn uchel, dewis iaith a gosodiadau maint/lliw ffont amgen. Cynhaliwyd gwerthusiad amlweddog yn 2023/24 a ddaeth i'r casgliad bod gweithredu rhaglen 'digidol yn gyntaf' ar gyfer darparu gwybodaeth cyn y profion cyn geni a babanod newydd-anedig yn llwyddiant a chyflawnwyd yr holl nodau. Bu'r dull cydgynhyrchu a fabwysiadwyd gyda byrddau iechyd yn effeithiol, gyda rhan allweddol yn cael ei chwarae gan ein staff wrth gynhyrchu adnoddau a hyfforddiant i gefnogi staff i fynd i'r afael ag anghenion ychwanegol ac allgau digidol.

Mae gweithgarwch genomeg yng Nghymru yn cael ei ddarparu drwy bartneriaeth Cymru gyfan – Partneriaeth Genomeg Cymru (GPW). Un o'r amcanion allweddol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru oedd ehangu a dyfnhau'r bartneriaeth drwy gydleoli partneriaid allweddol y GIG a phartneriaid academaidd yn y ganolfan ragoriaeth ar gyfer Genomeg. Mae ein Rhaglen Genomeg a'n Huned Genomeg Pathogenau wedi chwarae rhan ganolog wrth wireddu'r weledigaeth hon – ar ffurf Canolfan Iechyd Genomig Cymru (CIGC). Mae CIGC yn benllanw pum mlynedd o waith a thros £15 miliwn o arian Llywodraeth Cymru i ddwyn ynghyd arbenigedd genomeg tri sefydliad – Iechyd Cyhoeddus Cymru (ar ffurf yr Uned Genomeg Pathogenau a Rhaglen Genomeg Iechyd y Cyhoedd), Gwasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Pharc Geneteg Cymru Prifysgol Caerdydd.




Mae’r cyfleusterau newydd yn darparu llety o ansawdd uchel ar gyfer labordai, swyddfeydd a hyfforddiant, ac mae CIGC eisoes yn darparu amgylchedd i wella’r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd a lleihau costau. Mae’r amgylchedd cydweithredol y mae’n ei gynnig eisoes wedi darparu cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithredu, gan gynnwys ymgysylltu â’n cleifion a’r cyhoedd, cydweithio â diwydiant a datblygu llwyfannau a rennir ar gyfer storio data. Mae ein tîm Rhaglen Genomeg Iechyd y Cyhoedd a’n Huned Genomeg Pathogenau, sydd bellach wedi symud i mewn i’r Ganolfan, yn dechrau manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir drwy’r cyfleuster genomeg hwn o safon fyd-eang a rennir â chydweithwyr yn y GIG a chydweithwyr academaidd er mwyn datblygu gwasanaethau genomeg newydd i wella iechyd a llesiant, a lleihau anghydraddoldeb ar gyfer pobl Cymru.

# 8. Blaenoriaeth Strategol 6: Mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd cyhoeddus

**Mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd cyhoeddus**

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn datblygu dull cydlynol o ymdrin â newid yn yr hinsawdd ar draws y maes iechyd cyhoeddus, er enghraifft drwy fanteisio ar ein partneriaethau sefydledig gan gynnwys ein partneriaeth gyda Sefydliad Iechyd y Byd ac asiantaethau iechyd cyhoeddus amlwg eraill yn y DU. Rydym wedi canolbwyntio ar fireinio ein dealltwriaeth o anghenion cadw gwyliadwriaeth ar y newid yn yr hinsawdd gan ddatblygu ein dull ymchwil ar yr un pryd.

A significant milestone was achieved with the publication of a comprehensive Health Impact Assessment (HIA) on Climate Change in July 2023 by the Wales HIA Support Unit.

## 8.1 Datgarboneiddio

Rydym wedi adolygu ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio (2022/24) ac wedi datblygu ein cynllun nesaf (2024/26). I gefnogi ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio, cynhaliwyd Arolwg Teithio i'r staff yn ystod Tachwedd-Rhagfyr 2023 gan yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd mewn partneriaeth â'r Uned Gwyddor Ymddygiad i helpu i lywio a chefnogi newid ymddygiad tuag at ddewisiadau teithio mwy cynaliadwy. Cyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Mawrth 2024.

Fe wnaethom hefyd gynnal prosiect ymchwil a arweiniodd at gynhyrchu adroddiad 'Mynd i'r Afael â Phlastig Untro a Gwastraff yn Labordai Microbioleg Iechyd Cyhoeddus Cymru', sydd i'w gyhoeddi ar 22 Ebrill 2024. Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom hefyd gyhoeddi ymchwil ar effaith y pandemig COVID-19, y newid i drefniadau gweithio mwy ystwyth, ac adroddiad ar ôl troed carbon Iechyd Cyhoeddus Cymru a ffeithluniau ategol.

## 8.2 Addasu

Cyflawnwyd carreg filltir arwyddocaol yn sgil cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) cynhwysfawr ar Newid Hinsawdd ym mis Gorffennaf 2023 gan Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru. Roedd yn tynnu sylw at heriau allweddol a chydfanteision posibl sy'n benodol i Gymru. Mae'r asesiad hwn yn gweithredu fel esiampl arweiniol ar gyfer blaenoriaethu yn y dyfodol. Dilynwyd yr HIA ym mis Medi 2023 gan adnodd pwrpasol a oedd yn dangos sut y gellir defnyddio HIA i lywio a dylanwadu ar gamau gweithredu'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd a chynlluniau addasu yn ogystal ag ar lefel strategol. Yn dilyn hynny, cynhaliwyd digwyddiad traws-sector gyda chyrff cyhoeddus ym mis Hydref 2023 i hyrwyddo'r adnodd a thrafod sut y gellir cymhwyso'r dystiolaeth.

Mae'r gwaith wedi'i ddefnyddio gan ystod eang o gyrff cyhoeddus ac yn cael ei efelychu gan genedl-wladwriaethau eraill, er enghraifft, Seland Newydd a'r Alban. Mae'r gwaith wedi'i gyflwyno mewn sawl fforwm cenedlaethol a rhyngwladol gan gynnwys y gynhadledd Dylunio Dinas Iach, Cynhadledd Iechyd y Cyhoedd Ewropeaidd a chynhadledd y Gymdeithas Ryngwladol Asesu Effaith ym mis Ebrill 2024.



## 8.3 Ymgysylltu

Rydym wedi gweithio gyda'n cydweithwyr yn yr adran Gwella ac Arloesi i gynnal her Newid yn yr Hinsawdd i staff gan ddefnyddio'r platfform Simply Do – cymerodd dros 220 o staff ran yn y broses hon a chyflwynwyd 23 o syniadau prosiect ar deithio, gwastraff, TG gwyrddach a hyfforddiant. Cafodd cynnig hyfforddiant newid hinsawdd ei ddatblygu a'i hyrwyddo i staff, ac ers mis Ebrill 2023, mae dros 100 o staff (5% o'n gweithlu) wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant, gweithdai a chyflwyniadau newid hinsawdd. Cyflwynwyd ein gwaith hefyd mewn nifer o ddigwyddiadau a chynadleddau, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a oedd yn canolbwyntio ar Asesu'r Effaith ar Iechyd a chefnogi'r GIG i gyflawni'r targed Sero Net.

Mae rhai o'n straeon newyddion allanol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd i'w gweld isod:

- Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd (Rhagfyr 2023)
- Dull Asesu'r Effaith ar Iechyd yn cynorthwyo cyrff sector cyhoeddus i ddatblygu addasiadau newid hinsawdd (Hydref 2023)
- Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn amlygu'r angen brys i ddiogelu iechyd a llesiant wrth i'r hinsawdd newid (Gorffennaf 2023)
- Galw ar fusnesau mawr i wneud rhagor i helpu defnyddwyr i fynd i'r afael â newid hinsawdd (Ebrill 2023)

## 8.4 Gofal sylfaenol

Mae'r Is-adran Gofal Sylfaenol yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth, eiriolaeth a chymorth i gontractwyr gofal sylfaenol i gymryd camau i atal newid yn yr hinsawdd. Cafodd Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru ail flwyddyn lwyddiannus gyda thros naw deg o dimau'n cofrestru a chyfanswm o 2362 o gamau gweithredu sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd yn cael eu rhoi ar waith gan bractisau ers ei lansio ym mis Mehefin 2022. Ym mis Ionawr 2024 ail-lansiwyd Blwyddyn 3. Buom yn gweithio gyda phractisau a gymerodd ran i baratoi dau gyhoeddiad ar gyfer cyfnodolion proffesiynol gan gynnwys Suddo neu Nofio, Fferyllfa gymunedol yng Nghymru'n cyrraedd allyriadau sero-net (Yn Saesneg un unig) a oedd yn amlygu'r gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru.

Fe wnaethom gyhoeddi cyfres o astudiaethau achos fideo yn arddangos y camau a gymerwyd ym mhob un o'r lleoliadau contractwyr gofal sylfaenol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd Astudiaeth Achos Fideo: Fferylliaeth Gymunedol, Astudiaeth Achos Fideo: Ymarfer Cyffredinol, Astudiaeth Achos Fideo: Gofal Sylfaenol Deintyddol, Astudiaeth Achos Fideo: Optometreg Gofal Sylfaenol.

Cawsom ail rownd o gyllid gan Raglen Genedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru i Daclo'r Argyfwng Hinsawdd i dreialu model allgymorth addysgol Hyrwyddwyr, cael dealltwriaeth ymddygiadol o alluogwyr a rhwystrau i gymryd rhan yn y Cynllun, ac i ddatblygu offeryn ar gyfer cyfrifiadau carbon. Byddwn yn defnyddio'r rhain i lywio agweddau ar y Cynllun yn y dyfodol.

Fe wnaethom ddarparu arweinyddiaeth ac arbenigedd iechyd cyhoeddus i'r prosiect Dulliau Gofal Iechyd, is-grŵp y Rhaglen Genedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Daclo'r Argyfwng Hinsawdd drwy ddirprwy gadeiryddiaeth. Rydym hefyd yn parhau i arwain a datblygu'r grŵp Gorchwyl a Gorffen i fynd i'r afael â 4 menter a nodwyd yng Nghynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (2021) fel blaenoriaeth ar gyfer allyriadau carbon uchel sy'n gysylltiedig â defnyddio a gwaredu anadlyddion. Drwy'r grŵp hwn buom yn gweithio gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i ymchwilio i ffactorau a fyddai'n annog neu'n atal cleifion rhag dychwelyd anadlyddion i'r fferyllfa gymunedol i'w gwaredu'n ddiogel. Roeddem hefyd yn gyd-awduron y ddogfen Datgarboneiddio: rhagnodi, defnyddio a gwaredu anadlydd 2023–2030. Strategaeth genedlaethol i Gymru (Yn Saesned un unig) ac rydym bellach yn datblygu cynlluniau a mecanweithiau i weithio gyda rhanddeiliaid ledled y DU i gyflawni'r strategaeth.

Rydym wedi sefydlu is-grŵp gwyliadwriaeth o Fwrdd y Rhaglen Newid Hinsawdd i'n galluogi i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn ac i ddeall yr effaith y mae newid hinsawdd yn ei chael, ac y bydd yn parhau i'w chael, ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru

## 8.5 Cadw gwyliadwriaeth

Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi gwneud llawer o waith ar newid hinsawdd a chadw gwyliadwriaeth ar iechyd. Mae hwn yn faes cymharol newydd i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac asiantaethau iechyd cyhoeddus eraill, ac rydym yn gweithio ar y cyd â phartneriaid i ddatblygu dangosyddion a dulliau cadw gwyliadwriaeth. Rydym wedi sefydlu is-grŵp gwyliadwriaeth o Fwrdd y Rhaglen Newid Hinsawdd i'n galluogi i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn ac i ddeall yr effaith y mae newid hinsawdd yn ei chael, ac y bydd yn parhau i'w chael, ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

## 8.6 Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol

I gefnogi'r broses o addasu i hinsawdd sy'n newid, mae cyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru ar dywydd eithafol wedi cael ei adolygu, ei symleiddio a'i ddiweddaru. I gefnogi hyn, mae gweithdrefn weithredu safonol wedi'i datblygu gan y tîm Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol ar pryd y dylid rhoi cyngor i'r cyhoedd am dywydd eithafol. Yn fwy cyffredinol, mae pryderon ynghylch y risgiau tymor canolig i hirdymor i ansawdd a digonolrwydd cyflenwadau dŵr preifat wedi arwain at adolygiad o dystiolaeth ymchwil, yn ogystal ag adroddiadau am afiechyd a salwch a gyflwynwyd i'r timau diogelu iechyd. O ganlyniad i hynny, gwnaed nifer o argymhellion ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol, gan gynnwys adfer rheoliadau ynghylch cynnal asesiadau risg o gyflenwadau dŵr preifat.

Mae asesiad risg yn ymwneud â'r hinsawdd wedi'i ddrafftio ar gyfer carchardai ac mae bellach yn cael ei brofi; nod hwn yw helpu llywodraethwyr i benderfynu pa gamau y gall fod eu hangen i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae hyn hefyd yn debygol o fod yn berthnasol i leoliadau eraill, gan gynnwys o bosibl ysgolion a chartrefi gofal. Mae canllawiau ar reoli Algâu Gwyrddlas wedi'u diweddaru'n ddiweddar ac maent yn cyd-fynd â chanllawiau newydd ar Frech Nofwyr; dyma'r cyntaf yn y DU ac mae'n disgrifio sefyllfaoedd lle ceir risg uchel o frech nofwyr, yn ogystal â sut i'w hosgoi a'i rheoli.

## 8.7 Ymchwil

Rydym wedi ymgysylltu'n sylweddol â'n cydweithwyr academaidd yn y DU ac yn rhyngwladol i symud yr agenda ymchwil i effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru yn ei blaen. Rydym hefyd wedi cefnogi chwe chais am gyllid ymchwil sy'n canolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd ac iechyd y cyhoedd.

# 9. Cyflawni ein Cynllun yn llwyddiannus drwy ein swyddogaethau galluogi

Mae ein swyddogaethau galluogi wedi parhau i fod yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau strategol yn llwyddiannus, gan chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o arwain a chyflawni nifer o feysydd gwaith mawr, ochr yn ochr â chyflawni ein hystod lawn o swyddogaethau a gweithgareddau statudol.

## 9.1 Ein Pobl

Ein pobl sydd wrth wraidd ein gwaith i leihau anghydraddoldebau iechyd ac i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant pobl Cymru. Mae ein Strategaeth Pobl yn amlinellu ein cyfeiriad a'n blaenoriaethau hirdymor i siapio ein sefydliad, ein diwylliant a'n ffyrdd o weithio. Ein huchelgais hirdymor o ran pobl yw datblygu gweithlu hyblyg, cynaliadwy, amrywiol a ffyniannus, gyda'r gallu a'r capasiti i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. O ystyried pa mor hanfodol yw ein pobl i'n llwyddiant, rydym yn awyddus i ddenu, cadw a datblygu pobl ragorol, er mwyn cael effaith gadarnhaol yn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu ledled Cymru.

Mae ein hamcanion a'n cyflawniadau allweddol ar gyfer y flwyddyn wedi'u crynhoi isod:

### 9.1.1 Diwylliant a Phrofiad

Ein dyheadau yw cael naratif diwylliannol cymhellol a diwylliant sefydliadol cyson, datganiad o werth staff sy'n croesawu hyblygrwydd a chynwysoldeb a lle mae ein pobl yn deall ac yn hyrwyddo amrywiaeth, gweithio yn y ffordd a'r mannau sy'n gweithio orau a denu a recriwtio pobl sy'n adlewyrchiad o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.


- Ar ôl diwygio ein Strategaeth Hirdymor yn ystod 2023/24, rydym wedi ymgysylltu'n eang ar ddiwylliant y sefydliad a pham ei fod mor bwysig. Mae ein dulliau o gyfathrebu ynghylch y strategaeth a'n diwylliant wedi dod yn fwyfwy cydgysylltiedig, gyda'n Prif Weithredwr yn arwain digwyddiad yn dwyn y teitl "Spotlight on Culture", a oedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd ein diwylliant, ein gwerthoedd a'n hymddygiad.
- Mae ein pobl wedi dweud wrthym am y diwylliant delfrydol sydd ei eisiau a'i angen arnom yn Iechyd Cyhoeddus Cymru – un a fydd yn annog pobl i wneud y mwyaf o'u cyfraniadau a'u hymrwymiad i'r sefydliad, gwella ansawdd yr hyn a wnawn ac un a fydd yn gyson â'n gwerthoedd a'n pwrpas. Mae trafodaeth reolaidd gyda'n Tîm Gweithredol ac uwch arweinwyr eraill, ynghyd ag archwilio'r canlyniadau gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad, wedi ein galluogi i ddatblygu cynllun lefel uchel i greu'r diwylliant yr ydym yn ei ddymuno.
- Mae dwy garfan o staff wedi mynychu rhaglen Hyrwyddwyr Diwylliannol achrededig, gyda'r nod o helpu i ddarparu gwybodaeth a datblygu sgiliau a fydd yn eu galluogi i gefnogi uwch dimau yn hyderus ac yn effeithiol fel rhan o'n gwaith ar ddiwylliant.
- Mae ymddygiad yn greiddiol i ddiwylliant ac ym mis Mehefin 2023, lansiwyd ein fframwaith ymddygiad Bod ar Ein Gorau, yn dilyn ymgysylltu'n helaeth â chydweithwyr ynghylch sut rydym am i'n gwerthoedd – *gweithio gyda'n gilydd gydag ymddiriedaeth a pharch i wneud gwahaniaeth* – gael eu hadlewyrchu yn ein profiadau gwaith o ddydd i ddydd.
- Wedi'i ysgogi gan ein bwriad strategol i drefnu gwaith o amgylch ein bywydau ac i rymuso pawb i gael mwy o ddewis o ran sut y maent yn gweithio, rydym wedi datblygu ein dull 'Gweithio yn y Ffordd sy'n Gweithio Orau', sydd wedi ennill sawl gwobr, o raglen beilot i ffyrdd mwy sefydledig o weithio, gan ddatblygu polisi ac adnoddau ategol ychwanegol. Mae ein timau, ein rheolwyr a'n cydweithwyr yn parhau i gydweithio i gydbwyso anghenion y gwaith a wnawn, ac anghenion y tîm ac unigolion.

- Rydym wedi cynllunio a lansio gweithdai Arwain gydag Effaith ar gyfer ein holl reolwyr pobl. Gan ganolbwyntio ar ddiwylliant, Bod ar Ein Gorau a phwysigrwydd sgyrsiau difyr, y bwriad yw rhoi hyder i reolwyr ddefnyddio'r offer sy'n bodoli a'u sgiliau i ddylanwadu ar brofiad gweithwyr, gan eu galluogi i arwain eu timau mewn ffordd ddilys a hyderus.
- Datblygwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028 eleni i fodloni ein rhwymedigaethau i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a osodwyd arnom gan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Rheoliadau Adrodd ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a Llywodraeth Cymru.
- Gan adeiladu ar y wobr Arian a Mwy a ddyfarnwyd i ni y flwyddyn flaenorol, fe wnaethom ennill statws Aur yn asesiad Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru a ni yw'r unig sefydliad yn GIG Cymru i gael y lefel hon o gydnabyddiaeth.
- Mae ein Rhwydweithiau Staff yn parhau i ddatblygu a thyfu ac maent yn rhan annatod o'n ffyrdd o weithio.
- Roedd ein "Wythnos Gymraeg" yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sefydliad. Roedd hyn yn cynnwys gwobr "Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn".

### 9.1.2 Effeithiolrwydd Sefydliadol

Ein nod yw cynllunio a gweithio tuag at weithlu o'r maint a'r siâp gorau posibl sy'n cyd-fynd â'n Strategaeth Hirdymor, mabwysiadu dulliau clir o ddatblygu neu gael mynediad at y sgiliau sydd eu hangen arnom gyda mwy o hyblygrwydd, defnyddio adnoddau lle bo angen, lleihau seilos a meithrin cydweithio i gefnogi perfformiad y sefydliad.

- Rydym wedi gweithio gyda'n Tîm Gweithredol i sefydlu'r egwyddorion y byddwn yn eu dilyn i lunio ein strwythurau sefydliadol a fydd yn cefnogi esblygiad y sefydliad ac yn cyfrannu at ei effeithiolrwydd.
- Rydym wedi gweithredu ein dull Cyfarwyddiaeth o gomisiynu cymorth mewnol ac allanol ar gyfer rhaglenni newid drwy ddatblygu adnoddau, egwyddorion a fframweithiau a all hefyd gefnogi cynllunio ac adnoddau ar gyfer ein mentrau.
- Gan weithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur, rydym wedi datblygu adnoddau newydd i alluogi ein rheolwyr i arwain pobl drwy newid, ac i ddeall a gwella profiad pobl o newid, yn unol â'n gwerthoedd sefydliadol a Pholisi Newid Sefydliadol GIG Cymru.
- Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud i nodi rolau hollbwysig (cyfredol a disgwyliedig) ar draws y sefydliad. Mae strategaethau tymor byr, tymor canolig a thymor hir ar gyfer adnoddau wedi'u datblygu i ddarparu atebion ac ymyriadau ar gyfer yr holl rolau hanfodol a nodwyd.
- Rydym wedi treialu rhaglen ddysgu a datblygu ffurfiol newydd ar gyfer arweinwyr a rheolwyr ac wedi sefydlu Academi Arwain a Rheoli.






### 9.1.3 Busnes a Phrosesau

Rydym yn gweithio tuag at greu polisïau, prosesau, a gwasanaethau ategol sy'n ysgogi ac yn galluogi lefel uchel o berfformiad drwy fetrigau rheolwyr a metrigau pobl allweddol i lywio gwaith cynllunio, gwneud penderfyniadau a rheoli timau

- Mae nifer o bolisïau wedi'u hadolygu a'u diweddaru mewn partneriaeth â chydweithwyr Undebau Llafur a thrwy ymgynghori â staff i ddarparu prosesau symlach.
- Mae'r adran Datblygu Sefydliadol a Phobl ar y fewnrwyd wedi'i hail-ddylunio i gynnwys adnoddau ategol i sicrhau mynediad hawdd i reolwyr pobl.
- Rydym wedi diffinio a sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol sy'n cyd-fynd â'n pobl, sy'n cynnwys yr amser a gymerir i recriwtio, arfarnu, a chydymffurfio â hyfforddiant, a chyfraddau boddhad cwsmeriaid Cefnogi Pobl.
- Mae system e-rota sy'n cefnogi amserlennu sifftiau'n effeithlon wedi'i rhoi ar waith yn llwyddiannus ar draws tri Labordy a bydd yn parhau i gael ei chyflwyno drwy gydol 2024/25.
- Gan weithio ar y cyd â'n Hyb Gwella ac Arloesi, rydym yn darparu hyfforddiant i'n holl gydweithwyr yn yr adran Datblygu Sefydliadol a Phobl ar ddulliau o wella prosesau.
- Gwnaed newidiadau i nifer o brosesau, ffurflenni a thempledi i wella profiad cwsmeriaid ac effeithlonrwydd prosesau.

Mae ein dull cynhwysol ac ymgynghorol yn golygu ein bod yn gwrando’n astud ar ein pobl, yn parchu ac yn gwerthfawrogi eu hadborth ac yn gweithredu, yn dysgu ac yn datblygu

### 9.1.4 Challenges and Risks

Rydym yn parhau i wynebu heriau sy’n effeithio ar ein pobl a’r gwaith a wnawn, yn ogystal â phoblogaeth ehangach Cymru. Mae ffactorau fel poblogaeth sy’n heneiddio, niferoedd uwch o bobl yn gweithio tan eu bod yn hŷn, heriau economaidd-gymdeithasol, effaith y pandemig, a newid yn yr hinsawdd i gyd yn effeithio ar y gweithlu sydd ei angen arnom a’r gweithlu sydd ar gael i ni, nawr ac yn y dyfodol.

Mae angen i ni allu recriwtio a datblygu gweithlu mwy amrywiol sy’n adlewyrchu’n well y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu ac sy’n rhoi cipolwg ar anghenion a chymhellion holl ddefnyddwyr ein gwasanaethau. Mae gennym ragor o waith i’w wneud i lunio proses a fframwaith cynllunio’r gweithlu, gyda rolau a chyfrifoldebau clir ac ymgorffori proses strategol o gynllunio’r gweithlu yn ein cylch cynllunio integredig hirdymor.

ystwythder mewn perthynas â dysgu a buddsoddi mewn datblygiad parhaus ac ailsgilio a chanfod, datblygu a chadw’r dalent sydd ei hangen i gyflawni ein blaenoriaethau strategol ar gyfer sgiliau sy’n dod i’r amlwg, yn enwedig yn y meysydd digidol, data a thechnoleg.

Rydym hefyd yn awyddus i ymgorffori ffyrdd o weithio a fydd yn denu ac yn ysbrydoli gweithlu amlgenhedlaeth i weithio’n effeithiol gyda’i gilydd, gan werthfawrogi sgiliau a safbwyntiau ei gilydd, a chefnogi anghenion cyfnewidiol pobl drwy gynyddu’r cyfleoedd i weithio’n hyblyg ac ystwyth.

Rydym yn cefnogi’r defnydd o’r Gymraeg a gyrfaoedd dwyieithog (wrth i’r galw am wasanaethau Cymraeg gynyddu) ac rydym yn datblygu ac yn cefnogi ein harweinwyr a’n rheolwyr i arwain gyda thosturi; i reoli gweithlu amrywiol ac i ymgorffori newid yn effeithiol, gan feithrin perthnasoedd gyda’n partneriaid a chyflenwyr i ddarparu ein gwasanaethau a chryfhau mynediad i gapasiti a thalent.

### 9.1.5 Dysgu

Byddwn yn bwrw ymlaen â’r hyn a ddysgwyd o werthusiad ein rhaglen beilot Academi Arwain a Rheoli, ynghyd ag adborth a data a gafwyd o’r sesiynau Arwain gydag Effaith, wrth ddylunio a chyflwyno rhaglen barhaus o ddatblygu arweinwyr a rheolwyr.

Mae ein dull cynhwysol ac ymgynghorol yn golygu ein bod yn gwrando’n astud ar ein pobl, yn parchu ac yn gwerthfawrogi eu hadborth ac yn gweithredu, yn dysgu ac yn datblygu. Byddwn yn datblygu dull strategol o ymgysylltu â chyflogeion sy’n ymateb i ganlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru, arolwg ymgysylltu meddygol, asesiad o ddiwylliant a mewnbynnau eraill.

## 9.2 Ansawdd, Gwelliant a Rheoli Risgiau

Rydym yn anelu at fod yn esiampl i eraill ei ddilyn mewn perthynas ag ansawdd. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi datblygu ein dull ansawdd a gwelliant parhaus ymhellach drwy 'Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol' gan ddefnyddio'r fframwaith hwn i ddisgrifio dyluniad y sefydliad yn effeithiol, a chymryd rhan yn y broses o drawsnewid systemau a gwella ansawdd yn barhaus. Rydym wedi ymrwymo i weithredu'r system hon sydd wedi'i dylunio ar gyfer ansawdd, wedi'i llywio gan anghenion y boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu. Mae hyn yn ei dro yn creu diwylliant ac amgylchedd sy'n cefnogi ein staff ac yn darparu lle gwych i staff weithio a ffynnu. Mae'r dull hwn yn cefnogi cyflawniad ein strategaeth a'n blaenoriaethau strategol.

Mae ein Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn gyfrifol am alluogi, cynghori, cydweithio a chefnogi trefniadau llywodraethu integredig o ansawdd ar draws y sefydliad. Yn 2023/24, roedd rhai o'n cyflawniadau allweddol yn cynnwys:

### 9.2.1 Ansawdd a Gwella

Fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, mae'r Safonau Iechyd a Gofal wedi'u hadolygu fel rhan o weithredu'r Ddyletswydd Ansawdd. O ganlyniad i'r broses adolygu hon, mae Llywodraeth Cymru wedi disodli'r Safonau Iechyd a Gofal â fframwaith adrodd newydd ar ansawdd, yn seiliedig ar y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal. Mae'r Safonau Ansawdd wedi'u fframio o amgylch y chwe pharth ansawdd a'r chwe galluogydd ansawdd.






Mae'r fframwaith adrodd newydd a'r Ddyletswydd Ansawdd yn nodi fframwaith clir ar gyfer rheoli ansawdd a fydd yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y Ddyletswydd Ansawdd, Safonau Ansawdd, a'r broses rheoli ansawdd ehangach yn sefydliadau'r GIG yng Nghymru.

O 2023/24 ymlaen, mae Adroddiad Ansawdd Blynyddol newydd yn cael ei gyhoeddi i adrodd ar y camau y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Ansawdd ac i ddangos sut y mae'r sefydliad wedi gwneud gwelliannau i ansawdd ei wasanaethau. I weld rhagor o fanylion am sut rydym wedi gwneud hynny eleni, darllenwch Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2023/24.

### 9.2.2 Prosiect Rheoli Cofnodion

Mae'r prosiect hwn yn cyflwyno SharePoint Online fel un System Rheoli Dogfennau Electronig er mwyn i ni gefnogi cydweithio, lleihau'r amser y mae staff yn ei dreulio'n chwilio am ddogfennau a chofnodion a'u defnyddio, a sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â deddfwriaeth megis Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Rydym eisoes yn gweld gwelliannau mewn trefniadau llywodraethu a rheoli fersiynau a gall partneriaid allanol (er enghraifft, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol) ymuno â ni i gydweithio ar ddogfennau, gan leihau'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau darnau hanfodol o waith. Mae hwn yn newid sefydliadol sylweddol, sydd wedi cael ei groesawu'n frwd gan staff ac mae niferoedd mawr wedi cymryd rhan yn y prosiect. Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous i ni a fydd yn parhau i gefnogi staff i gyflawni ein blaenoriaethau strategol.

### 9.2.3 Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau a Chleifion

Mae gan y Gyfarwyddiaeth gyfrifoldeb i ymgysylltu a chydweithio, ac mae'n arwain ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn cynnwys arwain y Rhaglen Llysgenhadon Ifanc, a gynhaliodd gwrs preswyl llwyddiannus ym mis Gorffennaf 2023 a fynychwyd gan 23 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru. Rhoddodd y Llysgenhadon Ifanc a fynychodd y cwrs preswyl adborth ar ymgyrch genedlaethol ac ar ein Strategaeth Hirdymor, i helpu i lunio a dylunio gwasanaethau.

Yn 2023/24 enillodd ein tîm y Wobr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yng Ngwobrau Cenedlaethol Profiad Cymru. Mae hon yn wobr a enwebir gan gymheiriaid ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a dull system gyfan cynhwysol.

Enillodd y Gyfarwyddiaeth hefyd Wobr Effaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2023 ar gyfer prosiect ymchwil Profiadau Iechyd Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid, a oedd yn brosiect cydweithredol gyda Phrifysgol Abertawe, i gydnabod yr effaith a gafodd yr astudiaeth a'r effaith y mae'n parhau i'w chael.



### 9.2.4 Rheoli Risgiau

Mae rheoli risgiau yn hanfodol i redeg sefydliad diogel, effeithiol, blaengar a llwyddiannus. Dylai fod wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau, agendâu busnes a dyrannu adnoddau ar lefel weithredol yn ogystal ag ar lefel cynllunio a dylai anelu at nodi cyfleoedd i arloesi a buddsoddi, ochr yn ochr â'r angen i leihau risgiau.

Yn ystod 2023/24, fe wnaethom adolygu a diwygio ein risgiau strategol a'n risgiau corfforaethol yn unol â'r Strategaeth Hirdymor newydd. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae ein risgiau strategol wedi'u diwygio er mwyn disgrifio orau'r risgiau sefydliadol mwyaf arwyddocaol a wynebwn o safbwynt Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac o safbwynt Ansawdd. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, gallwn ganolbwyntio ein gweithgareddau ar y camau lliniaru sydd o fewn ein rheolaeth, ond hefyd amlygu'r meysydd ble mae angen ein dylanwad o fewn y system, er mwyn cyflawni ein canlyniadau bwriadedig.

Erbyn diwedd Chwarter cyntaf 2024/25, rhagwelir y bydd fframwaith diwygiedig ar barodrwydd i dderbyn risg, a fydd yn galluogi defnydd priodol o barodrwydd i dderbyn risg, yn weithredol ar draws y sefydliad. Bydd hyn yn golygu y bydd ein staff, o weithwyr rheng flaen i'r rhai ar lefel Bwrdd, yn gallu deall a chymhwyso'r canllawiau parodrwydd i dderbyn risg yn eu maes penodol. Bydd hyn yn hyrwyddo cysondeb, ac yn sicrhau bod ein parodrwydd i dderbyn risg, prosesau ar gyfer ymdrin â risgiau a mesurau lliniaru yn cyd-fynd â'r uchelgais yr ydym wedi'i nodi yn ein Strategaeth Hirdymor.

Rydym hefyd wedi bod yn ceisio symleiddio a safoni ein templedi adrodd, a'r broses i gysoni dangosyddion ansawdd, perfformiad a rheoli risgiau ymhellach.

## 9.3 Gwneud y defnydd gorau o adnoddau digidol, data a thystiolaeth

Wrth ddatblygu ein strategaeth, fe wnaethom ganolbwyntio ar ble y gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf er budd pobl Cymru. Fe wnaethom hefyd ganolbwyntio ar sut rydym yn galluogi ac yn hyrwyddo'r gwaith o gyflawni ein cynllun drwy fabwysiadu dulliau mwy ystwyth sy'n cael eu llywio gan ddata, ynghyd â mabwysiadu arloesedd lle y bo'n bosibl, gan roi defnyddwyr wrth wraidd yr hyn a wnawn ac ymgorffori dulliau gwella ansawdd.

Gydag amrywiaeth y rhaglenni gwaith o fewn ein Cyfarwyddiaeth Data, Gwybodaeth ac Ymchwil, cyflawnwyd llawer o amcanion allweddol ar draws y sefydliad ac mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol. I gefnogi'r gwaith o gyflawni ein Strategaeth Hirdymor, fe wnaethom ddatblygu a lansio ein Strategaeth Ddigidol a Data, yn ogystal â'n Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso.

Ymysg rhai o lwyddiannau allweddol yr adran ***Ymchwil a Gwerthuso*** eleni mae:

- Cyhoeddi'r adroddiad Gofalwyr Di-dâl yng Nghymru a roddodd ddealltwriaeth bwysig i gefnogi strategaeth Gofalwyr Cymru a sut y gellir nodi a chefnogi gofalwyr di-dâl yng Nghymru.
- Cyhoeddi adroddiad gweithgaredd blynyddol Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan (AWDPP) gyda'r Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwerthusiad Ffurfiannol a Seiliedig ar Werth o Raglen Atal Diabetes Cymru Gyfan gyda Chonsortiwm Prifysgolion Abertawe, Aberystwyth a Bangor.
- Sefydlu cynllun gwerthuso cynhwysfawr a fydd yn asesu effeithiolrwydd rhaglenni allweddol o fewn y sefydliad a GIG Cymru; gan gynnwys AWDPP, Prehab2Rehab, Partneriaeth Strategol HAPUS, Sgwrs Genedlaethol HAPUS, modiwlau e-ddysgu 'Sgyrsiau am Bwysau Iach, lefelau 1 a 2' Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif, y Prosiect Meddwl Ymlaen, Ymddygiadau Ataliol o ran Clefydau Trosglwyddadwy ('Golchi Dwylo') Ymgyrch Gyfathrebu, ac ymgyrchoedd cyfathrebu ar frechu rhag feirysau anadlol dros ddau aeaf yn olynol, sef 2022/23 ('Power Up') a 2023/24 ('Coats').

Un ffocws allweddol i ni yw gwella sut y gallwn gael gafael ar ddata a'u dehongli yng Nghymru a gwledydd eraill er mwyn bod yn sail i benderfyniadau polisi. Gan fod ein ***Timau Data a Gwyddor Data*** wedi'u hymgorffori yn y sefydliad, mae hyn bellach yn ein galluogi i wneud y defnydd gorau o ddata a sut y gellir eu rhannu'n ddiogel a chreu atebion gwyddonol o ansawdd uchel. Mae'r timau arbenigol hyn yn arwain y ffordd yng Nghymru drwy gydweithio'n frwd i helpu i fodelu patrymau iechyd i Gymru a gwella cynllunio a chanlyniadau i'r boblogaeth.

Mae detholiad o rywfaint o'r gwaith Gwyddor Data a gyflawnwyd eleni yn cynnwys:

- Diabetes - Cyflwyno achos dros newid yn seiliedig ar ragamcanion ac arbedion cost
- Cwblhau cam darganfod ar lif data diabetes
- Datblygu gwaith modelu senarios
- Rhagamcanion ar gyfer gwaith cadw gwyliadwriaeth
- Modelu galw a chapasiti
- Rhagamcanion o ran Gwelyau Ysbyty
- Cwblhau dadansoddiad a rhagamcanion ar Glefydau Cardiofasgwlaidd i gefnogi Nifer yr Achosion o Glefydau
- Archwilio potensial Deallusrwydd Artiffisial
- Cynnal cynlluniau peilot Adnoddau Data Cenedlaethol i asesu galluoedd y platfform.

Mae ein Timau Digidol a Data wedi cwblhau:

- Gwaith darganfod Adnoddau Data Cenedlaethol
- Gwaith darganfod data diabetes
- Gwaith darganfod ar Ddiogelu Iechyd
- System dewis carfan Bron Brawf Cymru y bwriedir ei rhoi ar waith ym mis Mai 2024
- System awtomeiddio ar gyfer Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru sydd i fod i gael ei lansio ym mis Gorffennaf 2024.

Mae ein Harsyllfa a'n Tîm Dadansoddi Canser yn darparu dadansoddiad data, yn canfod tystiolaeth ac yn rheoli gwybodaeth i gefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r cyhoedd drwy ddarparu gwybodaeth iechyd. Rydym yn parhau i ddatblygu a gwella ein Hystadegau a'n Dangosfyrddau i ddiwallu anghenion ein defnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dangosfwrdd Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN). Bydd hyn yn cael ei ehangu i gynnwys set ddata ysgolion uwchradd yn 2024 a data ysgolion cynradd yn 2025 mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd a Llywodraeth Cymru;
- Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus
- Datganiad ystadegau swyddogol yr Offeryn adrodd ar ganser ym mis Mehefin 2023 gyda ffigurau mynychder hyd at 2020 ar gyfer canser y fron, canser y colon a'r rhefr, canser yr ysgyfaint, canser yr ofarïau a chanser y prostad;
- Datblygu a chyhoeddi data canser cyflym (patholeg) ym mis Rhagfyr 2023;
- Cyhoeddi dangosfwrdd clwstwr Gofal Sylfaenol ym mis Rhagfyr 2023.

Mae ein cyfarwyddiaeth hefyd yn gyfrifol am lunio adroddiadau statudol ein Cofrestrfeydd. Mae'r timau'n prosesu ffynonellau lluosog o wybodaeth, ac mae'r pandemig yn dal i effeithio ar rai o'r rheini. Mae gweithgareddau'r Cofrestrfeydd yn cynnwys:

- Cyhoeddi adroddiad cadw gwyliadwriaeth ar lefel genedlaethol y Gwasanaeth Gwybodaeth a'r Gofrestr Anomaleddau Cynhenid (CARIS). Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys; data ar anomaleddau cynhenid, data ar glefydau prin yn ystod plentyndoda data ar gyfraddau canfod anomaleddau cyn geni ar 13 Tachwedd 2023;
- Clefydau Prin ymysg Oedolion. Rydym wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid (Gweithrediaeth GIG Cymru, clinigwyr, y trydydd sector, a'r byd academaidd) i gefnogi datblygiad y gofrestrfa hon. Mae sicrhau caniatâd ar gyfer casglu data yn yr hirdymor ar gyfer y gofrestrfa clefydau wedi bod yn heriol;
- Cyhoeddwyd adroddiad y Rhaglen Mesur Plant ym mis Mai 2023. Mae hon yn rhaglen wyliadwriaeth ar lefel genedlaethol sy'n cwmpasu'r holl blant 4-5 oed mewn dosbarth derbyn sydd yn yr ysgol yng Nghymru. Cyhoeddwyd data Adroddiad Blynyddol Ystadegau Swyddogol 2021-2022 ar 23 Mai 2023
- Bu Uned Gwybodaeth ac Arolygiaeth Canser Cymru (WCISU) yn gweithio gydag eraill i gynhyrchu'r offeryn adrodd ar ganser a data canser cyflym
- Adolygiad o Farwolaethau Plant. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi'r adroddiad ar farwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr ymhlith plant a phobl ifanc dan 25 oed yng Nghymru 2013-2022 ac fe'i cwblhawyd mewn cydweithrediad â Diogelwch Dŵr Cymru a'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA). Nod yr adroddiad yw darparu gwybodaeth i weithwyr proffesiynol diogelwch dŵr yng Nghymru er mwyn atal marwolaethau yn y dyfodol.
- Cyhoeddi adroddiad Gwyliadwriaeth Amser Real Hunanladdiad Tybiedig (RTSSS).

***Mae Symudedd Gwybodaeth*** yn hanfodol i'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chasglu a'i defnyddio o fewn sefydliadau a rhyngddynt. Mae'r tîm yn arwain y sefydliad i ddiffinio 'Egwyddorion a Safonau Cyhoeddi' a gweithredu ein Dull Monitro Effaith. Mae'r tîm wedi:

- Cynllunio a gweithredu dull monitro effaith, gan gynnwys arolwg blynyddol o ddefnyddwyr gwasanaethau
- Treialu offer ar gyfer gwaith monitro parhaus
- Cydgynhyrchu a chytuno ar safonau cyhoeddi ac adnoddau ategol

Mae ein Gwasanaeth Tystiolaeth yn llywio polisi, ymarfer a phenderfyniadau iechyd sy'n sail i gamau gweithredu ym maes iechyd y cyhoedd drwy gynhyrchu adolygiadau systematig, mapiau tystiolaeth a chrynodebau cyflym. Mae'r gwasanaeth wedi'i gynllunio i helpu defnyddwyr i helpu eu hunain drwy gyfeirio at dystiolaeth iechyd cyhoeddus bwysig gan fod hyn wedi datblygu nifer o adnoddau hyfforddi a sesiynau cefnogol i helpu i rymuso eraill i gael mynediad at wybodaeth briodol. Mae'r Gwasanaeth Tystiolaeth hefyd wedi cynhyrchu nifer o gynhyrchion wedi'u harwain gan ddefnyddwyr, gan gynnwys:

- Adroddiad cwmpasu ystwyth ar y nifer sy'n manteisio ar ymyriadau rhagsefydlu
- Cyfres o Grynodebau Tystiolaeth ar Bynciau yn ymwneud ag ymyriadau rhagsefydlu ar gyfer y rhai sydd ar restrau aros am lawdriniaeth ddewisol
- Mewn cydweithrediad â thimau Gwyddor Data a Pheirianneg Data, fe wnaethom gychwyn ar brosiect i ddigideiddio ein cyfres o fapiau tystiolaeth i wella hygyrchedd tystiolaeth allweddol
- Adolygiad o ddulliau systemau cyfan i leihau gordewdra (i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2024).

Yn ogystal â hynny, fel rhan o'n prosiectau cydweithredol parhaus gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru rydym wedi cynhyrchu nifer o adolygiadau cyflym mawr eu heffaith:

- Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a derbynioldeb hybiau llawfeddygol o ran cefnogi gweithgarwch gofal wedi'i gynllunio a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023
- 'Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer mynd ir afael ag allgau digidol ymysg oedolion hyn.
- Adolygiad cyflym o'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial mewn radioleg ddiagnostig, a gomisiynwyd gan Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Mae'r gweithgareddau o fewn y gyfarwyddiaeth yn gofyn am sgiliau arbenigol, rhai ohonynt yn newydd i'r sefydliad, ac rydym yn awyddus i rannu arfer gorau a chreu cymunedau lle y gellir cefnogi staff gyda hyfforddiant ychwanegol a chael llwybr sefydledig i gael mynediad at arbenigwyr pwnc. Er mwyn gwella ein gwytnwch, rydym hefyd yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn y maes Datblygiad Sefydliadol a Phobl i greu llwybrau gyrfa a rolau ar gyfer talent newydd sy'n sicrhau cyfatebiaeth ledled Cymru a gwledydd eraill i allu cynnig cyfleoedd cyflogaeth cystadleuol ar gyfer sgiliau y mae galw amdanynt. Rydym wedi:

- Datblygu teuluoedd swyddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol Data, Gwyddor Data a Gwerthuso
- Sefydlu Cymuned Ymarfer ar Werthuso, gan gynnal digwyddiadau deufisol rheolaidd gyda siaradwyr gwadd arbenigol allanol yn ymdrin ag ystod o bynciau a methodolegau gwerthuso
- Cyd-gynnal digwyddiad cymunedau ymarfer a chyhoeddi'r adroddiad Gwerthuso Ymyriadau Newid Ymddygiad gyda'r Uned Gwyddor Ymddygiad
- Sefydlu cymuned o Ymchwilwyr Data, Peirianwyr, Dadansoddwyr, Rheolwyr a Gwyddonwyr (DREAMS).

## 9.4 Strategaeth Hirdymor

Yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd ym mis Mawrth, cyhoeddwyd ein Strategaeth Hirdymor newydd ym mis Mai 2023, sy'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau Cymru lle mae pobl yn byw bywydau hirach, iachach, a lle mae gan bawb fynediad teg a chyfartal at y pethau sy'n arwain at iechyd a llesiant da.

Yn ystod 2023-24 cyhoeddwyd nifer o strategaethau galluogi sy'n ein helpu i gyflawni ein Strategaeth Hirdymor, gan gynnwys ein:

- Strategaeth Digidol a Data
- Strategaeth Iechyd Ryngwladol wedi'i Diweddaru
- Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso.

Er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn hygyrch i ystod eang o staff a rhanddeiliaid, buom yn gweithio gyda'r Plain English Campaign i gynhyrchu fersiwn Saesneg clir o'r strategaeth a chafodd y Nod Crisial - sêl rhagoriaeth yr ymgyrch ar gyfer dogfennau.

Rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar fap trywydd ar gyfer pob un o'r chwe Blaenoriaeth Strategol – gan fapio'r camau allweddol sydd eu hangen i gyflawni Amcanion 2035 a amlinellir yn ein Strategaeth Hirdymor. Mae'r gwaith hwn wedi'i ddatblygu drwy barhau â dull traws-sefydliadol ac amlddisgyblaethol dan arweiniad arweinwyr ein blaenoriaethau strategol, pob un yn cael ei gefnogi gan noddwr sy'n aelod o'r Tîm Gweithredol. Ar gyfer pob un o'r chwe blaenoriaeth strategol rydym wedi nodi ein llwyddiannau yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu ein strategaeth wrth i ni weithio gyda'n gilydd i gyflawni Cymru iachach.

## 9.5 Gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu

Dim ond drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill y gellir cyflawni canlyniadau iechyd gwell i'r boblogaeth a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Rydym wedi parhau i gryfhau ein trefniadau sefydliadol er mwyn ein galluogi i gydweithio'n bwrpasol gyda'n partneriaid a'r cyhoedd.

Mae ein Dull Ymgysylltu yn darparu dull sylfaenol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ffordd deg ac effeithiol, gan sicrhau bod llais y bobl rydym yn gweithio gyda nhw ac ar eu cyfer wrth wraidd yr hyn a wnawn a sut yr ydym yn ei wneud.

Mae'n cwmpasu pedwar prif fath o waith ymgysylltu:

- Gwybodaeth Gyhoeddus ac Ymgynghori Cyffredinol
- Cydgynhyrchu
- Adborth gan Ddefnyddwyr
- Grymuso Cymunedau

Rydym wedi cydnabod bod ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys defnyddwyr ein gwasanaethau, ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid, yn weithgaredd iechyd cyhoeddus craidd ac yn hanfodol i gyflawni ein blaenoriaethau strategol er mwyn diogelu, hybu a gwella iechyd a llesiant poblogaeth Cymru.

Yn ystod 2023-24, canolbwyntiodd Ein Dull Ymgysylltu ymhellach ar roi mwy o sylw i lais y bobl yr ydym am weithio gyda nhw ac ar eu cyfer drwy ddatblygu Fframwaith Profiad Defnyddwyr, wedi'i lywio gan ddata a thystiolaeth.



## 9.6 Perfformiad Ariannol

Cynhyrchwyd Cynllun Strategol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ac fe wnaethom gyflawni ein dyletswyddau ariannol i fantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 ac ar gyfer y cyfnod treigl tair blynedd 2020-23. Fe wnaethom hefyd gyrraedd targed GIG Cymru i dalu 95% o gontractau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG o fewn 30 diwrnod.

Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei datganiadau ariannol drafft o fewn yr amserlenni gofynnol ac fe'u hystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a'r Bwrdd ym mis Mai 2023. Cyhoeddodd Archwilio Cymru farn ddiamod ar Ddatganiadau Ariannol 2022-23.

Gweler yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol am drosolwg manwl o'n perfformiad ariannol yn 2023/24.

## 9.7 Cynaliadawyedd

Fel y nodir ym mlaenoriaeth strategol 6, mae ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd newydd ar gyfer 2024-2026 yn amlinellu'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y ddwy flynedd nesaf i ddod yn sefydliad carbon-negyddol (gan ddileu mwy o garbon deuocsid o'r atmosffer nag yr ydym yn ei ryddhau). Mae'r cynllun yn adeiladu ar ein cynnydd blaenorol ac yn cynnwys camau yr ydym yn eu cymryd ar draws y sefydliad i gefnogi agendâu'r economi sylfaenol a chylchol a chyfrannu at y nodau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym wedi integreiddio'r agendâu hyn o fewn y cynllun oherwydd y gorgyffwrdd sylweddol rhyngddynt ac i sicrhau bod gennym un cynllun sy'n dangos ein hymrwymiad i leihau ein hôl troed carbon.

Fel darparwr allweddol gwasanaethau'r GIG ledled Cymru, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi gweithgareddau cynaliadwyedd. Rydym yn sicrhau bod ein huchelgais ein hunain yn cyd-fynd â blaenoriaethau a thargedau allweddol a nodir yng Nghynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru i sicrhau ein bod yn lleihau ein hallyriadau carbon i weithio tuag at allyriadau Sero Net. Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd â'n byrddau iechyd a'n hymddiriedolaethau GIG partner a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, i gyflawni Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd 2024-2026.

Rydym yn parhau i gefnogi a galluogi ein staff i weithio gartref gan leihau'r angen i gymudo'n ddyddiol. Anogir y staff i ystyried yr effaith ar yr amgylchedd wrth benderfynu sut i deithio i/o'r gwaith ac mae'r cynllun beicio i'r gwaith wedi'i hyrwyddo i staff ac mae hyrwyddwyr teithio llesol wedi'u penodi

Rydym wedi cyflawni sawl prosiect dros y ddwy flynedd ddiwethaf i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd sy'n cyfrannu at agenda datgarboneiddio, economi gylchol ac economi sylfaenol y sefydliad. Nodir enghreifftiau o'r llwyddiannau a'r cyflawniadau hyn isod:

- ***Newid ein hystâd*** - Rydym wedi parhau i ad-drefnu'r ystâd, gan gefnogi staff i weithio'n wahanol yn unol â'n polisi Gweithio yn y Ffordd sy'n Gweithio Orau. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 60 tunnell o CO2 y flwyddyn yn ein hôl troed carbon. Yn ystod y prosiectau hyn mae egwyddorion economi gylchol wedi'u cymhwyso ac yn cynnwys rhoi dodrefn i gymunedau a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi. Rydym hefyd wedi moderneiddio ein swyddfa yn Wrecsam ac wedi sefydlu dau Hyb Sgrinio newydd, gan gynnal yr egwyddorion o ddod ag iechyd i'r stryd fawr a chefnogi cymunedau lleol. Mae cyfleusterau megis cawodydd a rheseli beiciau hefyd wedi'u gosod yn ein swyddfeydd i gefnogi teithio llesol. Yn ychwanegol at hyn, cyflawnodd y sefydliad Achrediad ISO 140001 ym mis Mai 2023 sy'n cwmpasu ein tri phrif safle.
- ***Ymgorffori teithio cynaliadwy*** - Ym mis Tachwedd 2023, disodlwyd Fflyd Sgrinio y gwasanaeth Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol (YAA) gan gerbydau hybrid a thrydan. Mae cynlluniau hefyd yn cael eu datblygu i adnewyddu fflyd bresennol Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) dros y ddwy flynedd nesaf.

Rydym yn parhau i gefnogi a galluogi ein staff i weithio gartref gan leihau'r angen i gymudo'n ddyddiol. Anogir y staff i ystyried yr effaith ar yr amgylchedd wrth benderfynu sut i deithio i/o'r gwaith ac mae'r cynllun beicio i'r gwaith wedi'i hyrwyddo i staff ac mae hyrwyddwyr teithio llesol wedi'u penodi.

Mae ein Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd yn parhau i gefnogi camau gweithredu, meithrin gallu, ysbrydoli ac addysgu. Mae gwybodaeth ychwanegol am ein cyflawniadau allweddol yn 2023/24 i'w gweld yn Adroddiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Cynaliadwyedd ar wahân ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru pan fydd data terfynol ar gael ym mis Medi 2024.



### 9.7.1 Yr economi sylfaenol

Yn 2023/24 rydym wedi parhau i gefnogi'r system ehangach ac ymgorffori egwyddorion yr economi sylfaenol yn ein dull gweithredu mewn perthynas â gwerth ac arloesedd.

Mae hyn yn cynnwys ceisio ymgorffori egwyddorion yr economi sylfaenol yn ein prosesau gwneud penderfyniadau strategol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau a newidiadau i'n gwasanaethau.



Ochr yn ochr â sefydlu grŵp llywio economi sylfaenol yn 2023, mae rhai o'n cyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Datblygu a rhannu gwybodaeth, adnoddau ac offer i helpu i adeiladu Economi Llesiant yng Nghymru gyda'r GIG yn sbardun ac Economi Sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys dechrau sefydlu a hyrwyddo dull Seiliedig ar Werth tuag at wario'r gyllideb a blaenoriaethu buddsoddiad tuag at iechyd, llesiant a thegwch y boblogaeth.
- Gweithio gyda gwasanaethau caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gynnal adolygiad data o'n cyflenwyr presennol i ganfod gwariant y rhanbarth a Byrddau Iechyd, gan feithrin dealltwriaeth bellach o Gyflenwyr Cymru a meysydd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Fel sefydliad angori mae gennym botensial mawr i gefnogi a hyrwyddo'r economi sylfaenol ymhellach a byddwn yn parhau i adeiladu ar ein cyflawniadau yn y dyfodol drwy gyflawni ein strategaeth hirdymor a'n cynllun strategol.

# 10. Deddf Llesiant Cenedlaethau›r Dyfodol (Cymru) 2015

## 10.1 Llywio ein gwaith


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol) yn parhau i fod yn fframwaith sy’n ein galluogi i gydweithio i greu Cymru iachach, nawr ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Rydym yn croesawu’r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn archwilio ffyrdd o gryfhau ein ffyrdd o weithio er mwyn llywio sut rydym yn gweithio i gael yr effaith fwyaf bosibl.

Fel sefydliad, rydym yn parhau i nodi cyfleoedd i gryfhau ein dull o ddatblygu ein strategaethau a'n cynlluniau, sut rydym yn creu'r strwythurau, y polisïau a'r prosesau cywir a sut rydym yn arwain, yn cyfathrebu ac yn cynnwys ein staff a'n partneriaid, fel ein bod yn gweithio gyda'n gilydd tuag at ddiben cyffredin.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i chymhwyso i rymuso ein staff i helpu i lywio datblygiad ein strategaeth hirdymor. Mae'r strategaeth yn integreiddio â blaenoriaethau'r system ehangach, i sicrhau ei bod yn addas at y diben ac yn mynd i'r afael yn effeithiol â heriau iechyd cyhoeddus dybryd. Rydym hefyd yn cyfrannu at yr agenda iechyd a chynaliadwyedd byd-eang, ar y cyd â'n partneriaid cenedlaethol a rhyngwladol.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau yn ein galluogi i fabwysiadu dull ataliol hirdymor, sy'n canolbwyntio ar gynnwys y cyhoedd a chydweithio â'n partneriaid, i ddarparu atebion integredig wrth i ni fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu nawr ac yn y dyfodol. Bydd y Pum Ffordd o Weithio yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn.

Cyhoeddwyd ein datganiad Llesiant ar ei newydd wedd ochr yn ochr â'n strategaeth ddiwygiedig ac mae'n dangos sut rydym yn cyflawni ein dyletswydd o ran datblygu cynaliadwy a sut rydym yn gosod ein hamcanion i wneud y mwyaf o'n cyfraniad at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant. Mae hefyd yn dangos sut y gwnaethom ymgorffori gwaith teg fel rhan o'r newidiadau oherwydd y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (2024).




Rydym yn parhau i nodi meysydd o'n gwaith sy'n esiamplau o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a meysydd lle y gallwn gynyddu ein cyfraniad tuag at y nodau llesiant i'r eithaf. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd, agweddau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd cynaliadwyedd, tra'n parhau â'n gwaith ar gynaliadwyedd amgylcheddol. Ymysg yr enghreifftiau diweddar mae'r canlynol:

- ***Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru*** - Mae'r rhaglen hon yn darparu adnodd cenedlaethol i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i ddefnyddio dull yn seiliedig ar systemau wedi'i lywio gan theori a thystiolaeth yn eu gwaith i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd wrth roi eu cynlluniau llesiant ar waith, gan rannu'r hyn a ddysgir rhwng BGC a ledled y DU.

- ***Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol -*** Mae'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol yn cefnogi ysgolion i ymgorffori diwylliant, ethos a gweithgaredd sy'n hyrwyddo llesiant meddyliol ac emosiynol cymuned yr ysgol, gan gryfhau dulliau atal ac ymyrraeth gynnar mewn lleoliadau addysg. Mae dros 90% o ysgolion â dysgwyr oedran ysgol uwchradd bellach yn gweithio i ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol.
- ***Rhaglen y 1000 Diwrnod Cyntaf -*** Dull Iechyd Cyhoeddus o Gefnogi Rhieni - Mae'r dull hwn yn cydnabod y cyd-destun economaidd-gymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y mae teuluoedd yn byw ynddo a'r effaith y gall hyn ei chael ar rianta. Mae'n cyflwyno'r achos dros wneud mwy o waith ar y ffactorau strwythurol ehangach o fewn y system i wella canlyniadau hirdymor, torri cylchoedd anfantais a lleihau anghydraddoldebau.
- ***Pecyn Cymorth Economaidd-Gymdeithasol -*** Daeth y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i rym yn 2021 a'i nod yw sicrhau canlyniadau gwell i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r pecyn cymorth yn cynnig canllaw ar ddefnyddio'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol mewn polisi ac ymarfer yng Nghymru ac yn rhoi enghreifftiau ac offer i ymgorffori'r Ddyletswydd mewn systemau a dulliau gweithredu i sicrhau ei bod yn gwneud gwahaniaeth systematig.
- ***Y tu hwnt i'r presennol -*** Sut i gymhwyso meddwl yn yr hirdymor i leihau anghydraddoldebau iechyd - Mewn partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi lansio adnodd i helpu sefydliadau i feddwl yn yr hirdymor er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'n darparu offer ac astudiaethau achos i ddangos sut y gallwn symud ymlaen o drin afiechyd i hybu iechyd da ac atal salwch pryd bynnag y gallwn. Gall helpu sefydliadau i feddwl yn yr hirdymor wella prosiectau a phrosesau cyfredol a gwella ansawdd y penderfyniadau pwysig sy'n llywio eu gwaith bob dydd.
- ***Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan -*** Dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae'r rhaglen hon yn cynnig cymorth wedi'i dargedu i bobl sydd mewn mwy o berygl o gael diabetes math 2, gyda'r nod o'u hatal rhag datblygu'r cyflwr hwn. Mae'r rhaglen genedlaethol hon yn cefnogi pobl i wneud newidiadau i'w ffordd o fyw a all ohirio neu atal diabetes math 2.
- ***Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd Iechyd Cyhoeddus Cymru -*** Mae'r cynllun newydd hwn yn amlinellu'r gwaith y bydd y sefydliad yn ei wneud dros y ddwy flynedd nesaf a thu hwnt i gyrraedd targed sero net y sector cyhoeddus erbyn 2030 ac i gyrraedd ein targed carbon negyddol erbyn 2035 fel y nodir yn ein Strategaeth Hirdymor. Oherwydd y gorgyffwrdd rhwng datgarboneiddio, yr economi sylfaenol a chylchol, bioamrywiaeth a'n rôl wrth weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r cynllun newydd hwn hefyd yn cynnwys camau gweithredu sy'n cyfrannu at yr agendâu cynaliadwyedd hyn.




- ***Adroddiad a Ffeithluniau Ôl Troed Carbon Iechyd Cyhoeddus Cymru -*** Ers y pandemig COVID-19 rydym i gyd wedi gweld newid sylweddol yn y ffyrdd o weithio yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Cynhaliodd yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd ymchwil i ddeall yr effaith y mae'r newidiadau hyn wedi'i chael ar ôl troed carbon y sefydliad. Edrychodd yr adroddiad hwn ar bedwar maes allyriadau allweddol (caffael, teithio, busnes/safle a gweithio gartref) a nododd feysydd blaenoriaeth allweddol lle y gallem wneud gwahaniaeth gwirioneddol i leihau ein hallyriadau carbon gan gefnogi ein huchelgeisiau sero net.
- ***Asesu ein Diwylliant -*** Rydym yn cydnabod bod diwylliant delfrydol - un sy'n annog pobl i wneud y mwyaf o'u cyfraniadau a'u hymrwymiad - yn gwella ansawdd yr hyn a wnawn ac yn gyson â'n gwerthoedd a'n pwrpas ac yn hanfodol i lwyddiant sefydliadol. Rydym wedi bod yn asesu ein diwylliant i wneud yn siŵr ein bod yn datblygu ffyrdd o weithio sy'n briodol i'n sefydliad a nodi meysydd i wella arnynt. Mae ein Fframwaith ymddygiad Bod ar ein Gorau yn cefnogi ein hymrwymiad i ddod â'n gwerthoedd yn fyw, gan ddisgrifio sut y dylai cydweithio, gydag ymddiriedaeth a pharch, i wneud gwahaniaeth fod yn amlwg yn ein profiadau o ddydd i ddydd.

Fel rhan o'n gwaith diwylliant, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn falch o'i ymrwymiad i greu gweithle ag amrywiaeth a chynhwysiant wrth ei wraidd, lle y gall pawb fod yn gyfforddus yn bod yn nhw eu hunain a rhoi o'u gorau. Rydym yn falch o fod wedi ein cynnwys yn rhestr 100 Cyflogwr Gorau Stonewall ac o fod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd, yn ogystal ag o fod wedi cael statws Aur yng nghynllun Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru am fod yn gynhwysol o ran hil. Fel sefydliad iechyd cyhoeddus, ein nod yw ymgorffori cynhwysiant ym mhob agwedd ar y gwaith yr ydym yn ei gyflawni ar gyfer pobl Cymru.



## 10.2 Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd

Gweithio tuag at ddyfodol lle y gall pobl a'r blaned ffynnu.

Rydym yn helpu staff a'n partneriaid i ymgorffori cynaliadwyedd yn eu gwaith ac yn helpu ein gilydd i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Rydym yn hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd ac yn cefnogi ein blaenoriaeth strategol newydd "Mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd cyhoeddus".

Rydym wedi bod wrthi'n cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn enwedig y 5 Ffordd o Weithio. Mae nifer o gyflwyniadau a gweithdai wedi cael eu cynnal i gefnogi staff a thimau i ymgorffori'r Ddeddf mewn gwaith bob dydd. Mae mwyafrif ein staff yn ymwybodol o'r Ddeddf Llesiant ond yn deall llai am y '5 ffordd o weithio' a sut y gall hynny fod o fudd iddyn nhw ac i'r sefydliad.

Mae'r Ddeddf yn cael ei hadnabod fwyfwy fel fframwaith galluogi ar gyfer ein meysydd newid corfforaethol ac rydym yn archwilio sut i gryfhau'r broses o integreiddio'r holl ddyletswyddau er mwyn cael mwy o effaith. Rydym yn deall bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu mecanwaith allweddol ar gyfer cefnogi dull 'Iechyd ym Mhob Polisi' ac mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) yn arf defnyddiol i sicrhau bod amcanion y nodau cynaliadwy yn cael eu hystyried drwy gydol y gwaith hwnnw.

Rydym wedi cryfhau ein partneriaethau ag eraill gan gynnwys Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a hefyd wedi ffurfio grŵp Hyrwyddwyr mewnol i gydweithio ymhellach a dysgu oddi wrth ein gilydd. Rydym wedi parhau â'n cytundeb partneriaeth ffurfiol gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a meddwl yn yr hirdymor ond rydym hefyd yn gweithio gyda'n gilydd i archwilio cyfleoedd i ehangu a chryfhau'r cydweithio hwn ar draws y pum cenhadaeth a nodir yn strategaeth Cymru Can y Comisiynydd.

Rydym yn edrych ymlaen at asesu ein ffyrdd o weithio mewn partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd hwn yn asesiad pwysig i ysgogi newid a gwelliant. Bydd yn llywio ein camau gweithredu yn y dyfodol er mwyn gwella'r ffyrdd o weithio ac i wneud y mwyaf o'n cyfraniadau fel sefydliad at y nodau llesiant cenedlaethol.

# 11. Sylwadau i gloi

Wrth i ni gychwyn ar ail flwyddyn ein strategaeth, byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n ddiwyro ar leihau anghydraddoldebau iechyd a sicrhau'r gwerth a'r effaith fwyaf posibl i bobl Cymru a'n partneriaid.

Mae'r camau gweithredu yr ydym wedi'u nodi yn ein Cynllun Strategol newydd 2024-27 yn adlewyrchu ein huchelgeisiau strategol hirdymor a'n ffocws ar gyfer sut y byddwn yn mynd i'r afael â heriau iechyd y boblogaeth sy'n wynebu Cymru yn y blynyddoedd i ddod.



Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio'n ddwys ar ddatblygu ein gwaith i ymateb i gostau byw fel argyfwng iechyd cyhoeddus. Rydym wedi ymgysylltu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i ddatblygu ein gwaith ar gyflogaeth, addysg a thai fel penderfynyddion iechyd. Rydym hefyd wedi parhau i gefnogi dull iechyd ym mhob polisi, gan roi cyngor ar ddatblygu ac ymgynghori ar reoliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iechyd.

Fe wnaethom barhau i ddatblygu'r rhaglen waith ar lesiant meddyliol drwy ymgysylltu'n helaeth, yn ogystal â pharhau â'n gwaith i ddatblygu a gweithredu'r Fframwaith Ymarfer Trawma Cenedlaethol drwy ddatblygu cynllun gweithredu a fersiwn plant a phobl ifanc. Fe wnaethom barhau i gefnogi'r broses o ymgorffori Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Meddyliol ac Emosiynol, yn ogystal â'n gwaith ar bwysigrwydd y 1000 Diwrnod Cyntaf ym mywyd plentyn o ran gosod y sylfeini ar gyfer iechyd a llesiant gydol oes.

Rydym wedi rhoi camau gweithredu allweddol ar waith mewn perthynas â strategaeth genedlaethol a blaenoriaethau polisi gan gynnwys Pwysau Iach Cymru Iach, Cymru Ddi-fwg a'r Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â pharhau i gefnogi datblygiad a gweithrediad Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan. Rydym hefyd wedi cefnogi'r gwaith gwella ar ysmygu yn ystod beichiogrwydd a Helpa Fi i Stopio mewn ysbytai, ac wedi ailgyflwyno rhaglen Byw Bywyd i atal plant rhag dechrau ysmygu drwy dargedu ysgolion. Fe wnaethom hefyd ailsefydlu ein gwaith i ddatblygu dull iechyd y cyhoedd o atal niwed yn sgil defnyddio sylweddau, a chefnogi Llywodraeth Cymru i ymateb i'r bwriad i gyflwyno'r Ardoll Gamblo.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar waith atal ar draws y system iechyd a gofal. Fe wnaethom arwain y gwaith o sefydlu'r rhaglen genedlaethol Mynd i'r Afael â Diabetes Gyda'n Gilydd gan weithio ochr yn ochr â'n partneriaid, a pharhau i gydgysylltu'r gwaith o gyflawni Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan. Cwblhawyd y gwaith o gyflwyno'r rhaglen Atal Gordewdra Gofal Sylfaenol, a lansiwyd rhaglen atal clefydau cardiofasgwlaidd newydd hefyd. Fe wnaethom barhau â'n gwaith gyda'n partneriaid gofal sylfaenol i ymgorffori gwaith atal yn y system iechyd a gofal. Parhaodd Gwasanaeth Diogelu'r GIG â'i rôl strategol o ran cydlynu a rheoli Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru.

"Nid ydym yn diystyru'r heriau sy'n ein hwynebu. Ein hymrwymiad yw mynd i'r afael â'r heriau hyn yn uniongyrchol, gan gydweithio a gweithio gyda'n partneriaid, dangos deinameg ac ystwythder, dysgu, arloesi ac esblygu"

Mae ein staff Diogelu Iechyd a Sgrinio wedi cael blwyddyn arall eithriadol o brysur. Roedd gaeaf 2023/24 yn ein hatgoffa o'r effaith sylweddol y gall achosion o glefydau heintus ei chael ar unigolion a chymunedau, gyda'n tîm yn ymateb i'r nifer fawr o'r pas a'r achosion cyntaf o'r frech goch ers y pandemig. Parhaodd y Gwasanaethau Heintiau i ddarparu profion ledled Cymru, gan dderbyn a phrosesu dros 1.4 miliwn o samplau. Lansiodd ein Rhaglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu ei hymgyrch gyfathrebu ar frechiadau i gryfhau negeseuon am bwysigrwydd brechu wrth baratoi ar gyfer tymor y gaeaf. At hynny, mae ein rhaglen sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol (YAA) bellach wedi'i hadfer yn llwyr ar ôl y saib yn ystod y pandemig, ac mae ein rhaglenni Sgrinio'r Fron a Sgrinio Llygaid Diabetig wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at adferiad ac yn lleihau nifer y bobl sy'n aros i gael eu sgrinio.

Rydym wedi canolbwyntio ar fireinio ein dealltwriaeth o anghenion cadw gwyliadwriaeth ar newid yn yr hinsawdd tra'n datblygu ein dull ymchwil. Cyhoeddwyd ein Hasesiad cynhwysfawr o'r Effaith ar Iechyd ar Newid Hinsawdd, gan amlygu heriau allweddol a chyd-fuddiannau posibl sy'n ymwneud yn benodol â Chymru. Fe wnaethom barhau â'n gwaith i leihau ein hôl troed carbon, gan gynnwys disodli ein fflyd sgrinio YAA â cherbydau hybrid a thrydan a gwella ein seilwaith i gefnogi teithio llesol. Fe wnaethom hefyd gyflwyno Cymuned Ymarfer newydd ar y Newid yn yr Hinsawdd, sy'n darparu gofod penodol i gydweithwyr gyfnewid gwybodaeth a syniadau.

Mae ein swyddogaethau galluogi wedi parhau i fod yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau strategol yn llwyddiannus, gan chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o arwain a chyflawni nifer o feysydd gwaith mawr, ochr yn ochr â chyflawni ein hystod lawn o swyddogaethau a gweithgareddau statudol.

Gwyddom fod gwaddol y pandemig COVID-19 a'r cynnydd parhaus mewn costau byw yn parhau i gael effeithiau difrifol ar bobl Cymru, nid yn unig o ran yr effeithiau uniongyrchol ar iechyd, ond hefyd y goblygiadau ehangach a thymor hwy i'n hiechyd a'n llesiant. Mae ein cynnydd o ran cyflawni ein themâu strategol allweddol yn 2023/24 yn gyflawniad gwych i'r sefydliad ac yn adlewyrchu gwaith eithriadol ein staff mewn cyfnod prysur a heriol iawn yng Nghymru.

Nid ydym yn diystyru'r heriau sy'n ein hwynebu. Ein hymrwymiad yw mynd i'r afael â'r heriau hyn yn uniongyrchol, gan gydweithio a gweithio gyda'n partneriaid, dangos deinameg ac ystwythder, dysgu, arloesi ac esblygu. Ac yn bennaf oll, creu amgylchedd lle rydym yn llwyddo drwy ymrwymiad, proffesiynoldeb, ac ymdrechion ein staff ardderchog.